Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad blynyddol a Chyfrifon 2014-15

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel y'i cyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos y canlynol yn ystod 2014-15:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwaith a gynlluniwyd; ac
- mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun wedi'u cyflawni i raddau helaeth.

Mae'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 wedi cael eu paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.


## Swyddfa Archwilio Cymru
## 24 Heol y Gadeirlan
## Caerdydd
## CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| Twitter | @WalesAudit |


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

# Uchafbwyntiau

## Rhoi sicrwydd, cynnig mewnwelediad a hyrwyddo gwelliant

**Cyhoeddi**

adroddiadau ar gyfrifon dros **800** o gyrff cyhoeddus yng Nghymru

**Cyflwyno**

adroddiadau ar 14 o bynciau gwahanol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan ystyried gwerth am arian a'r defnydd priodol o arian cyhoeddus

**Darparu**

asesiadau gwella blynyddol ym mhob un o'r 28 o awdurdodau gwella llywodraeth leol, ac asesiadau strwythuredig ym mhob un o 10 corff y GIG

**Ardystio**

31 o gynlluniau grant llywodraeth leol, gwerth dros £3 biliwn, a oedd yn cynnwys dros 540 o hawliadau unigol, a arweiniodd at addasiadau gwerth dros £2 filiwn

## Rhedeg y busnes

**Lleihau**

incwm o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir dri y cant a lleihau costau gweithredu £280,000 drwy wneud arbedion effeithlonrwydd ac arbedion mewn costau

**Cadarnhau**

bod yr holl waith archwilio a ystyriwyd drwy ein cylch diweddaraf o Adolygiadau Rheoli Ansawdd mewnol wedi cyrraedd y safonau gofynnol neu wedi rhagori arnynt

**Cynyddu**

faint o amser a dreulir ar gyfartaledd gan bob cyflogai ar ystod o weithgareddau dysgu a datblygu o 8 i 10 diwrnod y flwyddyn

**Cael ein hailachredu**

ar **Lefel 4** (y lefel uchaf ond un) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru



Yn 2014-15, parhaodd cyrff cyhoeddus ledled Cymru i wynebu nifer o heriau anodd, gan gynnwys gostyngiadau mewn termau real mewn cyllidebau blynyddol, disgwyliadau a galwadau cynyddol ymhlith y cyhoedd, yr angen i fynd i'r afael â rhai diffygion mewn gwasanaethau a gydnabuwyd, a pharatoi ar gyfer diwygiadau polisi a strwythur pellach.

Fel Swyddfa Archwilio genedlaethol Cymru rydym wedi chwarae ein rhan er mwyn helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i oresgyn yr heriau hyn a llwyddo. Rhoddwyd mynediad i'r cyhoedd drwy gydol y flwyddyn at gyfoeth o wybodaeth a mewnwelediad ynglŷn â materion megis rheoleidd-dra, priodoldeb, a gwerth am arian, a'r hyn sy'n arfer da. Ac rydym wedi cyflwyno adroddiadau mewn modd amserol, diduedd, cywir a chlir.

Yn benodol, fel y'i disgrifir yn yr Adroddiad hwn, gwnaethom:

- ddarparu'r dadansoddiad manwl cyntaf o effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru;
- rhannu ein dealltwriaeth o'r heriau yr oedd y gwasanaethau nyrsio ardal yng Nghymru yn eu hwynebu gyda Byrddau Iechyd Lleol;
- cefnogi'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo graffu ar y ffodd y mae cyrff llywodraeth ganolog yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
- pwysleisio pwysigrwydd trefniadau llywodraethu da o ran cynlluniau ymadael yn gynnar a'r angen i'w cysoni â'r gwaith ehangach ar gynllunio'r gweithlu;
- rhannu enghreifftiau o ddulliau arloesol o reoli asedau, er mwyn helpu i sicrhau y caiff tir neu asedau'r sector cyhoeddus eu defnyddio hyd eithaf eu potensial; a
- helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ganfod ac atal twyll a gwallau gwerth dros £4 miliwn.

Roeddem hefyd wrth ein bodd gyda chanlyniadau ein harolwg o randdeiliaid a dynnodd sylw at ansawdd ac effaith gadarnhaol ein gwaith. Fodd bynnag, ni allwn fod yn hunanfodlon.

Drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn destun lefelau digonol, ond nid gormodol, o graffu a defnyddio ein cylch gwaith unigryw i 'ddilyn y bunt gyhoeddus' ac archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau, mae'n rhaid i ni barhau i ymdrechu i ychwanegu'r gwerth mwyaf posibl a chael yr effaith fwyaf bosibl.

Dros y tair blynedd nesaf, fel y'i hamlinellwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16, byddwn yn cymryd camau pellach i flaenoriaethu ac atgyfnerthu ein rhaglenni gwaith, fel rhan o ddarlun yn y tymor hwy o'r ffordd y gellir gwella effeithiolrwydd archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



Fel y'i hamlinellwyd yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, bu 2014-15 yn flwyddyn heriol ond buddiol i Swyddfa Archwilio Cymru. Hon oedd ein blwyddyn gyfrifyddu gyntaf, ar ôl i staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau gael eu trosglwyddo oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Ar ôl pleidlais gan y staff ar ddechrau'r flwyddyn, rydym bellach yn y sefyllfa unigryw o gael aelodau anweithredol a gweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal ag aelodau etholedig sy'n gyflogeion, er mwyn rhoi dimensiwn ychwanegol o fewnwelediad a phrofiad. Mae ein trefniadau llywodraethu newydd yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni ddatblygu ymhellach fel busnes.

Yn ystod y flwyddyn, daeth buddiannau ein strwythur uwch reolwyr newydd yn amlwg drwy fwy o ymgysylltu â chyrff a archwilir, gwell dealltwriaeth o'r heriau y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu drwy rôl y Swyddogion Arwain Sector a gweithio corfforaethol cryfach.

Dechreuwyd hefyd ar adolygiadau o'r canlynol:

- ein trefniadau rheoli risg, er mwyn cadarnhau i ba raddau y maent wedi'u hymgorffori ac y maent yn unol ag arfer gorau;
- ein trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r gofynion o ran adnoddau mewn amgylchedd archwilio sy'n newid yn gyflym;
- ein trefniadau trafnidiaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fod yn addas at y diben ac yn gyson â'r cyfrifoldebau corfforaethol; ac
- effeithiolrwydd ein Bwrdd, gyda'r nod o bennu cryfderau a meysydd i'w datblygu, ac argymell camau gweithredu a gweithgarwch er mwyn gwella perfformiad.

Ym mis Mawrth 2015 cyhoeddwyd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16. Ochr yn ochr â rhoi gwybodaeth ychwanegol am ein blaenoriaethau tair blynedd, mae'r Cynllun yn disgrifio sut y byddwn yn mesur a chofnodi ein perfformiad yn fwy effeithiol drwy fframwaith newydd o fesurau a thargedau allweddol.

Wrth lunio'r Cynllun, rhoddwyd sylw penodol i ystyried pa fath o swyddfa archwilio sydd ei hangen ar Gymru yn awr ac yn y dyfodol, y ffordd orau o gydweithio â chyrff adolygu allanol eraill a'n rhanddeiliaid allweddol, a sut y gallwn ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes a sut y gallwn barhau i asesu a chofnodi p'un a ydym yn cael pethau'n iawn.

**Isobel Garner**
Y Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynnwys a’r canllaw i ddarllenwyr

## Adroddiad Strategol

Adolygiad o waith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2014-15, gan gynnwys dadansoddiad o’n datblygiad a’n perfformiad, a’n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn


9 Amdanom ni

Pwy ydym ni, yr hyn a wnawn, ein nod a’n hamcanion a’n cynllun ar gyfer cyflawni

14 Crynodebau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol

Cynnydd yn erbyn mesurau ariannol, amgylcheddol a pherfformiad cymdeithasol allweddol ar gyfer y tair blynedd diwethaf; y crynodebau hyn yw’r rhan gyntaf o’n Hadroddiad ar Gynaliadwyedd sydd mewn dwy ran

20 Rhoi sicrwydd, cynnig mewnwelediad a hyrwyddo gwelliant

Sylwadaeth ynghyd ag astudiaethau achos sy’n dangos sut y rhoddwyd sicrwydd yn amserol gennym yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ynglŷn â gwarchod arian cyhoeddus, cynnig mewnwelediad defnyddiol, a nodi’n glir sut y gellir gwella’r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus a hyrwyddo hynny

39 Rhedeg y busnes

Yr hyn a wnaethom yn 2014-15 i adeiladu ar ein gwaith i fod yn sefydliad atebol ac effeithlon sydd wedi’i redeg yn dda; yr adran hon yw ail ran ein Hadroddiad ar Gynaliadwyedd

49 Ffocws ein gwaith yn y dyfodol

Amlinelliad o’n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16, sy’n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein blaenoriaethau tair blynedd, ac yn crynhoi’r prif dueddiadau a ffactorau sy’n debygol o effeithio ar ein datblygiad, ein perfformiad a’n sefyllfa yn y dyfodol

# Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag arfer llywodraethu corfforaethol da


## 52 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Gwybodaeth ynglŷn ag aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli, ac archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru

## 59 Adroddiad Cydnabyddiaeth

Ein polisi ynglŷn â chydnabyddiaeth, ynghyd â manylion cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau o'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ac aelodau'r Pwyllgor Rheoli

## 68 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Esboniad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am baratoi'r datganiadau ariannol

## 69 Datganiad Llywodraethu

Amlinelliad o strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg, a disgrifiad o'r prif risgiau ac achosion o ansicrwydd a wynebwn

## 84 Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra ac ar faterion eraill

## 86 Prif ddatganiadau ariannol a nodiadau

Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiadau am Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, a Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, ochr yn ochr â nodiadau esboniadol ac ategol

# Adroddiad Strategol

Adolygiad o waith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2014-15, gan gynnwys dadansoddiad o'n datblygiad a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn

# Amdanom ni

## Pwy ydym ni

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, ynghyd ac amrywiaeth o ddeddfwriaeth arall, yn rhoi'r sail statudol dros waith yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio i'w ddyfarnu bob blwyddyn. Trosglwyddir elfennau sylweddol o'r arian hwn gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn Fwrdd sy'n cyflogi staff â chymwysterau proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifwyr yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn gorff corfforaethol ym mis Gorffennaf 2013 ac roedd yn cyflogi 245 o staff ar 31 Mawrth 2015.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bwyllgor Rheoli sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r sefydliad o ddydd i ddydd. Ceir manylion pellach am y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r Datganiad Llywodraethu.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru i ystyried yn annibynnol a yw arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli'n ddoeth ac y rhoddir cyfrif amdano'n briodol.

# Yr hyn a wnawn


Mae archwilio'r sector cyhoeddus yn golygu rhoi barn ar y cyfrifon ac mae hefyd yn cynnwys materion megis rheoleidd-dra (a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion a gymeradwywyd), priodoldeb (a yw busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal yn briodol) a gwerth am arian.


Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni rhaglen helaeth ond cymesur o waith archwilio allanol, gan ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, ochr yn ochr â swyddogaethau penodol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn ei raglen er mwyn iddo allu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw faterion yr ydym yn dod ar eu traws drwy ein gwaith archwilio neu sy'n cael eu dwyn i'n sylw.

Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn gymwys mewn gwahanol fathau o gyrff, er mwyn ystyried gwariant cyhoeddus waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

Rydym yn nodi arfer da o bob rhan o waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ac yn ei ledaenu drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da (adnodd am ddim ar y we) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau a gweminerau dysgu ar y cyd.

## Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru





Yr UE ac incwm arall £2 biliwn
Derbyniadau'r Dreth Gyngor £1 biliwn
Llywodraeth Cymru
Cyrff eraill llywodraeth ganolog a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru
Cyrff llywodraeth leol
Cyrff y GIG
Cyrff eraill llywodraeth ganolog
Contractwyr a derbynwyr grantiau
Archwilio cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru
Archwilio cyfrifon cyrff a ariennir yn uniongyrchol
Archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff Llyw. Leol, y GIG a chyrff y Llyw
Archwiliadau ac asesiadau gwella Llyw. Leol ac archwiliadau perfformiad o'r GIG yn lleol
Hawliau helaeth i gael mynediad at wybodaeth er mwyn cyflawni archwiliadau ac astudiaethau
Ardystio ffurflenni a hawliadau grant
Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian
Llif arian
Cwmpas archwilio

# Ein nod a’n hamcanion

Ein nod yw hysbysu pobl Cymru a helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo.

Mae ein pedwerydd amcan allweddol yn ategu’r tri cyntaf, sef: er mwyn i’r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaeth archwilio o safon uchel, mae’n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn sefydliad sydd wedi’i redeg yn dda ac sy’n sicrhau gwerth am arian.




# Ein cynllun ar gyfer cyflawni

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar y cyd a'i osod gerbron y Cynulliad. Mae'r Cynllun ar gael ar ein gwefan.

Mae'r Cynllun yn nodi rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014-15, yr adnoddau sydd ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, a sut y defnyddiwyd yr adnoddau hynny i ymgymryd â'r rhaglenni gwaith.

Yn yr Adroddiad hwn, mae sylwadaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun wedi'i rhannu'n wyth adran, sy'n unol â'n hamcanion. Mae'r chwe adran gyntaf yn ymwneud â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ddwy adran arall yn ymwneud â rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.





# Crynodebau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol

## Crynodeb ariannol

Yn 2014-15:

- Cynhyrchwyd £17.1 miliwn o incwm a chawsom £6.0 miliwn o arian o Gronfa Gyfunol Cymru.
- Cafwyd cyfanswm o £16.1 miliwn o incwm drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir – gostyngiad o dri y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol – a chafwyd incwm grant gwerth £0.9 miliwn.
- Ar ôl ystyried ein cronfeydd wrth gefn a ailddosbarthwyd i gyrff llywodraeth leol yn 2013-14, roedd ein gwariant £280,000 yn llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cynyddodd costau staff £110,000, yn bennaf er mwyn gwneud iawn am leihad yn y gwaith archwilio a roddwyd ar gontract allanol i gwmnïau cyfrifwyr yn y sector preifat; lleihaodd cost gwasanaethau allanol £150,000.
- Roedd ein costau gweithredu eraill £240,000 yn llai, a oedd yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd ar ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol a oedd yn gysylltiedig â newidiadau i'n trefniadau llywodraethu a buddsoddiad untro yn ein gwefan newydd yn 2013-14.



# Canlyniad Ariannol 2014-15

| | 2014-15 £'000 | 2013-14 £'000 | 2012-13 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm ac adnoddau** | | | |
| Ffioedd archwilio ac arolygu | 16,108 | 16,606 | 15,871 |
| Llywodraeth leol[1] | 10,781 | 11,385 | 11,044 |
| Y GIG | 3,380 | 3,302 | 3,239 |
| Llywodraeth ganolog | 1,947 | 1,919 | 1,588 |
| Grant gan Lywodraeth Cymru | 947 | 1,409 | 1,322 |
| Incwm arall[2] | 64 | 27 | 23 |
| Cyfanswm yr incwm | 17,119 | 18,042 | 17,216 |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | (15,406) | (15,291) | (14,981) |
| Gwasanaethau allanol[3] | (3,156) | (3,308) | (3,451) |
| Yn ad-daladwy i gyrff llywodraeth leol[4] | 0 | (1,633) | 0 |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer trethiant | 0 | 0 | 2,392 |
| Costau gweithredu eraill | (3,850) | (4,093) | (3,221) |
| Treth gorfforaeth | 0 | (3) | 0 |
| Cyfanswm gwariant | (22,412) | (24,328) | (19,261) |
| Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (5,293) | (6,286) | (2,045) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,974 | 5,431 | 4,740 |
| Yn ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (698) | (337) | (268) |
| Newid yn ecwiti trethdalwyr | (17) | (1,192) | 2,427 |
| Ecwiti trethdalwyr ar 1 Ebrill | 0 | 1,192 | (1,235) |
| Ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth | (17) | 0 | 1,192 |

1 Mae'n cynnwys ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon, ardystio grantiau a gwaith archwiliadau ac asesiadau gwella

2 Mae incwm arall yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ynghyd â llog banc

3 Gwaith archwilio ar gontract allanol i gwmnïau cyfrifwyr yn y sector preifat yn bennaf


4 Roedd ecwiti trethdalwyr a oedd wedi cronni cyn 2013-14 ynghyd â'r hyn a enillwyd yn ystod 2013-14 yn ymwneud â gwaith archwilio a wnaed yng nghyrff llywodraeth leol. Fel yr amlinellwyd yn yr **Amcangyfrif o Incwm a Gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben 31 Mawrth 2015**, ailddosbarthwyd y swm hwn i'r cyrff hynny.

# Crynodeb amgylcheddol

Yn 2014-15:

- Cynyddodd y gwastraff a gynhyrchwyd gennym o ryw ychydig, ond llwyddwyd o hyd i gyflawni gostyngiad o 23 y cant ers 2012-13
- Parhawyd i gynyddu cyfran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio gennym, a pharhawyd i leihau faint o bapur a ddefnyddir gennym
- Lleihawyd ein defnydd o ddŵr dros chwech y cant a 0.5m$^3$ am bob aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn
- Cynyddwyd ein hallyriadau sy'n cyfateb i $CO_2$ tua phump y cant, yn enwedig oherwydd cynnydd mewn allyriadau y gellir eu priodoli i deithiau awyr
- Gwellwyd effeithlonrwydd cyffredinol ein defnydd o swyddfeydd



| | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| **Rheoli amgylcheddol** | | | |
| Lefel achredu'r Ddraig Werdd | 4 | 4 | 4 |
| **Y defnydd o ddŵr** | | | |
| Y defnydd o ddŵr $m^3$ | 2,206 | 2,351 | 2,322 |
| Y defnydd o ddŵr $m^3$ fesul WTE[1] | 9.6 | 10.1 | 9.9 |
| Costau cyflenwi dŵr £ | 4,088 | 4,348 | 3,336 |
| **Y defnydd o bapur** | | | |
| Y defnydd o bapur mewn rimiau | 2,305 | 2,325 | 2,385 |
| Costau cyflenwi papur £ | 6,349 | 6,426 | 6,112 |
| **Gwastraff**[2] | | | |
| Cyfanswm y gwastraff kg | 66,508 | 65,779 | 86,002 |
| Ailddefnyddio, ailgylchu, compostio | 27,368 | 26,193 | 26,844 |
| Tirlenwi | 39,140 | 39,229 | 59,158 |
| Peryglus | 0 | 357 | 0 |
| Ailddefnyddio, ailgylchu, compostio fel % o gyfanswm y gwastraff[3] | 41.1 | 40.0 | 31.2 |
| Cyfanswm costau gwaredu £ | 7,337 | 4,439 | 8,586 |
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr**[4] | | | |
| Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ kg cyfatebol | 596,251 | 569,993 | 541,065 |
| Y gellir eu priodoli i deithiau busnes | 282,573 | 257,035 | 255,915 |
| Mewn car | 242,881 | 234,501 | 238,616 |
| Ar y rheilffordd neu drwy'r awyr | 39,692 | 22,534 | 17,299 |
| Y gellir eu priodoli i'r defnydd o ynni | 281,150 | 279,683 | 285,150 |
| Trydan | 275,624 | 275,367 | 278,778 |
| Nwy | 5,526 | 4,316 | 6,372 |
| Y gellir ei briodoli i arall[5] | 32,528 | 33,275 | |
| Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes £ | 242,403 | 222,333 | 197,284 |
| Cyfanswm gwariant ynni £ | 63,119 | 56,556 | 69,874 |
| **Effeithlonrwydd ystad** | | | |
| Cost fesul WTE £[6] | 3,397 | 3,431 | 3,186 |
| Costeffeithlonrwydd[7] £ fesul $m^2$ | 278 | 285 | 265 |
| Effeithlonrwydd o ran gofod[8] $m^2$ fesul WTE | 12.2 | 12.0 | 12.0 |

1 Arfer nodweddiadol a gorau ar gyfer y defnydd o ddŵr mewn swyddfa yw 9.3 $m^3$ a 6.4 $m^3$ yn y drefn honno yn ôl Cyfwerth ag Amser Cyflawn (WTE) y flwyddyn (canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd)

2 Fe'i cyfrifwyd drwy ddefnyddio ffactorau trosi WRAP ac fe'i hailddatganwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol

3 69 y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2013-14 (**Adroddiad Cyflwr yr Ystad 2013-14**)

4 Fe'i cyfrifwyd drwy ddefnyddio canllawiau 2014 DEFRA/DECC ac fe'i hailddatganwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn unol â newidiadau i ganllawiau adroddiadau cwmnïau

5 Y gellir ei briodoli i allyrru a dosbarthu ynni, gwaredu gwastraff a defnyddio a thrin dŵr – a gyfrifwyd gyntaf yn 2013-14

6 O gymharu â £3,285 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2014


7 Gan gynnwys rhent, ardrethi a chostau eraill


8 O gymharu â 15.5 $m^2$ fesul WTE ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2014


# Crynodeb cymdeithasol


Yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15:

- Roedd oedran ein gweithlu a'i broffil o ran rhywedd yn debyg i oedran a phroffil gweithlu'r Gwasanaeth Sifil yn 2014
- Parhaodd cyfran y cyflogeion rhan amser i gynyddu, yn enwedig oherwydd cynnydd yn y gyfran o gyflogeion rhan amser sy'n ddynion
- Bu cynnydd sylweddol yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb hirdymor; roedd cyfanswm y ffigur ar gyfer absenoldeb ddiwrnod yn fwy na meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)
- Cynyddodd ein cyfradd trosiant staff flynyddol i lefel ychydig yn uwch na meincnod CIPD, a'r canolrif (pumed ddegradd) cyflog gros staff oedd £44,000.
- Cynyddodd cyfran y staff mewn bandiau cyflog rheoli sy'n fenywod, a hefyd gyfran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol.



| Ar ddiwedd y flwyddyn: | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y staff a chydnabyddiaeth** | | | |
| Nifer y staff a gyflogir yn uniongyrchol | 245 | 247 | 251 |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn | 230.6 | 233.8 | 234.5 |
| Cyflog gros blynyddol staff canolrifol a buddiannau mewn da[1] £ | 44,704 | 43,499 | 45,964 |
| **Trosiant** | | | |
| Cyfradd trosiant staff flynyddol[2] % | 9.8 | 9.3 | 10.8 |
| **Rheoli presenoldeb** | | | |
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff[3] | 9.1 | 6.4 | 6.7 |
| Oherwydd absenoldeb byrdymor | 3.7 | 3.7 | 3.9 |
| Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau o ≥21 diwrnod) | 5.4 | 2.6 | 2.9 |
| **Amrywiaeth** | | | |
| Benyw % | 51.0 | 49.8 | 52.2 |
| O dan 30 oed[4] % | 9.8 | 9.0 | 10.0 |
| Rhwng 30 a 59 oed % | 84.5 | 88.6 | 85.2 |
| 60 oed a throsodd % | 5.7 | 2.4 | 4.8 |
| **Patrymau gweithio** | | | |
| Cyflogeion rhan amser fel % o'r cyfanswm[5] | 18.0 | 17.4 | 16.3 |
| I ddynion | 7.5 | 5.6 | 3.3 |
| I fenywod | 28.0 | 29.3 | 28.2 |
| **Math o gontract cyflogaeth** | | | |
| % y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol[6] | 95.1 | 90.3 | 87.7 |
| **Dosbarthiad graddau** | | | |
| Staff mewn bandiau uwch dîm arwain (A i C) % | 5.7 | 5.2 | 5.2 |
| Staff mewn bandiau rheoli (6 a 7) % | 22.9 | 21.9 | 21.5 |
| Staff mewn bandiau cyflog eraill % | 71.4 | 72.9 | 73.3 |
| % y staff uwch dîm rheoli sy'n fenywod | 21.4 | 23.1 | 23.2 |
| % y staff rheoli sy'n fenywod | 37.5 | 35.2 | 35.2 |

1 Yn yr ystod £45,000 i £50,000 ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a £41,664 ar gyfer Audit Scotland (yn unol â'u cyfrifon blynyddol cyhoeddedig ar gyfer 2013-14)

2 9.4 y cant ganolrifol ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a ymatebodd i **Resourcing and Talent Planning Survey** 2013 CIPD

3 Cymedr o 8.2 diwrnod fesul cyflogai y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i **Arolwg Rheoli Absenoldeb** blynyddol CIPD yn 2014

4 Ffigurau'r **Annual Civil Service Employment Survey** 2014: tua 9.1 y cant o dan 30 oed, 82.6 y cant rhwng 30 a 59 oed ac 8.2 y cant yn 60 oed a throsodd

5 24.4 y cant ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yn ei gyfanrwydd yn 2014 (8.9 y cant i ddynion, 38.0 y cant i fenywod), a 17 y cant i Lywodraeth Cymru

6 99 y cant ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yn 2014

# Rhoi sicrwydd, cynnig mewnwelediad a hyrwyddo gwelliant

## Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a prif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau cymuned a thref. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, ardystio hawliadau am grant a ffurflenni, archwiliadau ac asesiadau gwella, ac astudiaethau llywodraeth leol.

## Rhaglen waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a gyflawnwyd mewn cyrff llywodraeth leol yn 2014-15, yn gyson â'n Cynllun

### Archwilio cyfrifon

22 o awdurdodau unedol
3 awdurdod tân ac achub
3 awdurdod parc cenedlaethol
4 comisiynydd heddlu a throseddu
4 prif gwnstabl
Ymddiriedolaeth Prawf Cymru
8 cronfa bensiwn
Nifer o gyrff llywodraeth leol llai eraill, gan gynnwys cyd-bwyllgorau ac awdurdodau harbwr
Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o dros 740 o gynghorau tref a chymuned
Adroddiad crynodeb blynyddol o gyfrifon cyrff llywodraeth leol

### Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

31 cynllun yn werth dros £3 biliwn ac yn ymwneud â dros 540 o hawliadau unigol

### Archwiliadau ac asesiadau gwella

22 awdurdod unedol (gan gynnwys chwe asesiad corfforaethol manylach)
3 awdurdod tân ac achub
3 awdurdod parc cenedlaethol

### Astudiaethau a gwblhawyd

Trefniadau craffu
Rheolaeth ariannol a llywodraethu
Cyflawni â llai - gwasanaethau iechyd amgylcheddol
Pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant
Effaith diwygiadau lles ar dai cymdeithasol

### Astudiaethau sydd ar y gweill

Cydnerthedd ariannol
Mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol - cefnogi annibynniaeth pobl hŷn
Cyflawni â llai - gwasanaethau hamdden
Diogelu - trefniadau llywodraethu

Fel rhan o raglen gylchol o astudiaethau llywodraeth leol, gwnaed gwaith yn unol â'n Cynllun ar naw astudiaeth yn 2014-15.

# Astudiaeth achos: Astudiaeth ar effaith newidiadau i ddiwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol


Mae Llywodraeth y DU wedi nodi'n glir ei bod am annog pobl sy'n cael budd-daliadau i ddychwelyd i weithio, symleiddio'r system budd-daliadau a lleihau faint o arian y mae'r wlad yn ei wario ar les.

I'r perwyl hwn, cyflwynwyd dau bolisi allweddol - cap ar gyfanswm y budd-dal y gall teulu ei hawlio, a chymhorthdal ystafell sbâr ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol (a elwir yn dreth ystafell wely yn gyffredinol) - gyda'r nod o sicrhau £1 biliwn o arbedion yn 2013-14 a 2014-15.

Drwy gynnal astudiaeth yn 2014-15 ar effaith y newidiadau hyn ar denantiaid tai cymdeithasol, cynghorau, cymdeithasau tai a Llywodraeth Cymru, canfuom y canlynol:

- mae'r newidiadau'n effeithio ar gyfran fwy o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru nag yn yr Alban neu Loegr;
- mae'r newidiadau yn cyd-daro â chynnydd mewn tlodi ymhlith llawer o denantiaid;
- er i arbedion gael eu gwneud i'r gyllideb les, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau ychwanegol i liniaru effaith y newidiadau yng Nghymru i ryw raddau;
- mae cynghorau a chymdeithasau tai yn cael anhawster yn ymdopi ag effaith y newidiadau i'r budd-dal tai; a
- bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol a thaliadau uniongyrchol yn gwneud y sefyllfa'n waeth.

Drwy ein gwaith rhoddwyd y dadansoddiad manwl cyntaf o effaith y newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru, ac mae ein canfyddiadau yn cael eu defnyddio bellach gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus drwy ei ymchwiliad i ddiwygio lles a thai cymdeithasol.



# Astudiaeth achos: Ardystio hawliadau a ffurflenni ar gyfer grantiau llywodraeth leol



Mae grantiau yn ffynhonnell bwysig o arian yng Nghymru. Wrth ddyfarnu grantiau, mae cyllidwyr yn gosod amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n eu derbyn ddefnyddio'r arian at y dibenion y cytunwyd arnynt yn unig ac o dan reolaethau llym. Os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i ardystio hawliadau a ffurflenni ar gyfer grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a wnaed[1].

Yn 2014-15, ardystiwyd 31 o gynlluniau llywodraeth leol gennym, a oedd yn werth tua £3 biliwn ac yn cynnwys dros 540 o hawliadau unigol. O ganlyniad i'n gwaith, bu'n rhaid addasu bron 30 y cant o'r hawliadau hynny (er mwyn cywiro gwall) neu roi barn amodol (er mwyn nodi anghytundeb neu ansicrwydd ynglŷn â rhan o'r gwariant a hawliwyd). Gwnaed addasiadau gwerth dros £2 filiwn yn gros ac roedd y newidiadau a ddeilliodd o farn amodol o bosibl yn werth o leiaf £11 miliwn.

1 Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) mewn perthynas â diddymu'r system budd-dal tai a chwblhau'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae DWP yn disgwyl y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn 2017 ac, oherwydd y dylai gael ei weinyddu'n llawn gan DWP, ni fyddai gan awdurdodau lleol rôl i'w chwarae mwyach wrth gynorthwyo hawlwyr gyda'u costau tai. Byddai hyn yn arwain at derfynu ein gwaith ardystio budd-daliadau mewn awdurdodau lleol a bydd colli'r llwyth gwaith hwn a'r incwm cysylltiedig yn cael ei gydnabod yn ein cynlluniau ariannol a gweithlu tymor canolig.

At hynny, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi diwygio ei threfniadau ar gyfer archwilio rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yr UE sydd ar y gweill, ac ni fydd unrhyw ofyniad mwyach i ni ardystio hawliadau yn y fframwaith hwn. Yn lle hynny, caiff yr holl archwiliadau a rheolaethau ar gyfer rhaglen 2014-2020 eu cynnal gan WEFO ei hun. Rydym yn parhau i archwilio hawliadau gweddilliol o raglen 2007-2013 ond, wrth i'r prosiectau presennol ddod i ben, daw ein gwaith yn y maes hwn i ben yn y pen draw.

# Gwaith archwilio yng nghyrff y GIG

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn GIG Cymru yn cwmpasu pob un o'r saith bwrdd iechyd lleol a thair Ymddiriedolaeth y GIG, yn ogystal â gwaith Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyfrifon blynyddol pob un o gyrff y GIG, ac yn cyflwyno adroddiad yn gyhoeddus ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

## Rhaglen waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a gyflawnwyd yng nghyrff y GIG yn 2014-15, yn gyson â'n Cynllun

**Archwilio cyfrifon**

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 o ymddiriedolaethau'r GIG
- Cyfrifon cryno byrddau iechyd lleol
- Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG

**Gwaith archwilio perfformiad lleol**

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 o ymddiriedolaethau'r GIG

**Asesiadau strwythuredig**

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 o ymddiriedolaethau'r GIG

**Astudiaethau a gwblhawyd**

- Codio clinigol
- Gwasanaethau nyrsio ardal
- Trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (astudiaeth ddilynol)

**Astudiaethau sydd ar y gweill**

- Rheoli meddyginiaethau
- Gwasanaethau Cleifion Allanol: apwyntiadau dilynol
- Seilwaith a chapasiti TG

Fel rhan o raglen gylchol o astudiaethau iechyd, gwnaed gwaith yn unol â'n Cynllun ar chwe astudiaeth yn 2014-15.

# Astudiaeth achos: Asesiadau strwythuredig



Mae asesiadau strwythuredig yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n rhaglen flynyddol o waith archwilio perfformiad lleol mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae'r gwaith yn rhoi sylwadau cyfoethog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol cyrff y GIG.

Ceir crynodeb o ganfyddiadau ein gwaith asesu strwythuredig yn ein hadroddiadau archwilio blynyddol i gyrff y GIG. Yn 2014-15 yn gyffredinol, canfuom, er bod gan y rhan fwyaf o gyrff y GIG drefniadau a phrosesau llywodraethu priodol ar waith, mae angen i agweddau penodol ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod Byrddau'n barod i arwain eu sefydliadu drwy'r heriau a wynebir ganddynt ar hyn o bryd.

Yn benodol, mae ein gwaith yn olrhain cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn erbyn yr agweddau ar lywodraethu y mae angen eu hatgyfnerthu yn ein barn ni, gyda'r nod o gefnogi a llywio gwaith datblygu'r byrddau. Mae asesiadau strwythurol hefyd yn cefnogi dysgu ymhlith holl gymuned y GIG. Cafodd ein canfyddiadau allweddol eu cynnwys mewn memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â Llywodraethu yn y GIG yng Nghymru, ac yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol: **GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14**, Hydref 2014.

At hynny, mae'r wybodaeth a gawn drwy ein gwaith asesu strwythuredig yn ein galluogi i gynnig safbwynt unigryw i drafodaethau bord gron gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel rhan o fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd y GIG.

## Astudiaeth achos: Adolygiad o wasanaethau nyrsio ardal

Dros y degawd diwethaf, un ffocws allweddol polisi iechyd a chymdeithasol Llywodraeth Cymru fu'r angen i leihau dibyniaeth ar ysbytai a rhoi mwy o ofal yn y gymuned. Mae nyrsys ardal yn brif ddarparwr gofal y tu allan i'r ysbyty. Fodd bynnag, wrth i ni ymgymryd â gwaith archwilio blaenorol, nodwyd bylchau yn y wybodaeth a ddelir gan GIG Cymru o ran y galw am wasanaethau nyrsio ardal a'u perfformiad.

Yn ystod 2014, roedd ein rhaglen o waith archwilio lleol ym mhob bwrdd iechyd yn cynnwys archwiliad manwl o'r ffordd y caiff adnoddau nyrsio ardal eu defnyddio. Gwerthuswyd trefniadau cynllunio, rheoli a monitro strategol byrddau iechyd a chynhaliwyd dadansoddiadau manwl o ddata ar niferoedd staff a sgiliau, y galw am wasanaethau, a'r ffordd y defnyddir staff, gan ddibynnu'n fawr ar gymhariaeth ar sail meincnodi.

Rhannwyd canfyddiadau ein gwaith gyda'r byrddau iechyd drwy weithdai strwythuredig a ddygodd reolwyr gwasanaethau ac arweinwyr timau nyrsio ardal ynghyd. Nod y gweithdai oedd sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r heriau a wynebir gan y gwasanaeth yng Nghymru, a rhoi cyfle i reolwyr ac arweinwyr drafod dulliau gwahanol o sicrhau gwell defnydd o adnoddau nyrsio ardal, yng nghyd-destun datblygiadau ehangach o ran darparu gwasanaethau yn y gymuned.

Mae ein hadroddiadau lleol wedi cael derbyniad da, gyda'r argymhellion ar gyfer gwella i gyd yn cael eu derbyn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol bellach yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i gyflwyno negeseuon Cymru gyfan o'n gwaith er mwyn llywio dysgu a gwella ehangach.

# Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog

Mae'r sector llywodraeth ganolog yng Nghymru yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, swyddfeydd gwahanol gomisiynwyr statudol, arolygwyr a rheoleiddwyr, a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn wahanol i lywodraeth leol a chyrff iechyd, nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad ym mhob un o gyrff llywodraeth ganolog, ond yn hytrach mae ond yn rhoi barn flynyddol ar eu cyfrifon. Mae gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o astudiaethau gwerth am arian ar hyn o bryd.

## Rhaglen waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a gyflawnwyd mewn cyrff llywodraeth ganolog yn 2014-15, yn gyson â'n Cynllun

### Cyfrifon Llywodraeth Cymru

- Cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru
- Cyfrif ardrethu annomestig
- Cyfrif derbyniadau a thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru
- Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan
- Cymeradwyo taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru

### Cyfrifon cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prif Gyfrifon a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

### Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

### Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

### Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

- Hawliadau gwerth oddeutu £300 miliwn i gronfa strwythurol Ewrop gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi

## Astudiaeth achos: Craffu ar gyfrifon llywodraeth ganolog

Bob blwyddyn, mae ein harchwilwyr ariannol yn ystyried cyfrifon blynyddol pob un o'r cyrff llywodraeth ganolog datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun gyda'i chyllideb flynyddol o £15 biliwn, cyrff a noddir megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol, a rhai cyrff cyhoeddus bach megis swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

Yn ystod hydref 2014, am y tro cyntaf, penderfynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adolygu rhai o'r cyfrifon blynyddol hyn yn fanwl, a holi'r uwch reolwyr yn eu cylch. Gyda chymorth ein staff archwilio, gofynnodd y Pwyllgor am esboniadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac amrywiol Brif Weithredwyr a Chomisiynwyr ynglŷn â sut roeddent hwy a'u timau rheoli yn mynd i'r afael â heriau ariannol. Yn ei adroddiad canlyniadol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, gwnaeth y Pwyllgor naw o argymhellion, yr oedd llawer ohonynt yn gymwys yn fwy cyffredinol i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod i'r math newydd hwn o graffu penodol ar y cyd ar gyfrifon blynyddol nifer o rinweddau, a bod adolygiadau o'r fath yn debygol o fod yn nodwedd arferol o raglen waith flynyddol y Pwyllgor bellach. Bydd hyn yn helpu i godi proffil ac effaith ein gwaith archwilio ariannol.

## Astudiaeth achos: Hwyluso awdurdodau lleol i adael system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai

Un eitem bwysig unigol o fusnes yn ystod 2014-15 oedd hwyluso awdurdodau lleol yng Nghymru i adael system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai.

System gyfuno oedd Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai, gyda'r bwriad o helpu i sicrhau y gallai awdurdodau lleol ymgymryd â'r gwariant ar eu stoc tai tra'n ei gwneud yn bosibl i renti yng Nghymru a Lloegr fod ar lefelau tebyg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd pob un o'r 11 o awdurdodau a oedd wedi cadw stoc yng Nghymru yn dalwyr cymhorthdal negyddol.

Yn sgil cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM i adael y system, mae taliadau cymhorthdal negyddol blynyddol gwerth £73 miliwn ledled Cymru wedi cael eu disodli gan daliadau llog o tua £40 miliwn bellach—arbediad net o £33 miliwn y flwyddyn i awdurdodau yng Nghymru.

Ein rôl oedd sicrhau bod yr arian a roddwyd i adael y system (£919 miliwn i gyd) yn gallu cael ei dalu'n gyfreithlon ar amser. Roedd hyn yn golygu cadarnhau a chynghori Llywodraeth Cymru ynghylch a oedd y ddeddfwriaeth berthnasol ar waith, a sicrhau ein bod yn gallu monitro llifau arian a chymeradwyo'r taliad i'w wneud o Gronfa Gyfunol Cymru ar 2 Ebrill 2015.

Roedd hwn yn brosiect pwysig a oedd yn helpu i gadw cydbwysedd cyllid y DU drwy sicrhau bod popeth ar waith er mwyn sicrhau trafodyn cyflym a didrafferth.

# Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys astudiaethau gwerth am arian, paratoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio ar nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol, ac archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i faterion sydd o bryder i'r cyhoedd a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Mae allbynnau'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, a phwyllgorau eraill y Cynulliad o bosibl.

Wrth benderfynu ar ei raglen o astudiaethau gwerth am arian, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried barn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac yn ymgynghori'n ehangach â rhanddeiliaid eraill. Ei nodau allweddol ar gyfer y rhaglen yw ymgymryd ag ymdriniaeth gynhwysfawr ac amserol o wariant a risgiau i werth am arian, mynd i'r afael ag amrywiaeth mawr o faterion sy'n berthnasol neu'n achos pryder, ac ystyried lles hirdymor pobl Cymru.

Mae'r rhaglen waith yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid, blaenoriaethau a risgiau a'r cynlluniau ar gyfer astudiaethau penodol sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Er i raddfa'r gweithgarwch a natur yr allbynnau dan sylw ym mhob achos amrywio, gwnaed gwaith yn 2014-15 ar bob un o'r pynciau a restrir yn yr arddangosyn drosodd.

Yn ogystal â'r gwaith a restrir, mae sawl un o'n hadroddiadau ar lywodraeth leol a'r GIG a gyhoeddwyd yn 2014-15 wedi cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i baratoi rhwng 10 a 12 o gynhyrchion bob blwyddyn i gefnogi gwaith y Pwyllgor. Yn gyffredinol, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau ar 14 o bynciau gwahanol i'r Pwyllgor yn ystod 2014-15.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cael gohebiaeth yn rheolaidd ynglŷn â materion sydd o bryder i aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac Aelodau Cynulliad eraill. Pan gaiff pryderon o'r fath eu codi, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried y ffordd orau o ymateb a sut i gyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau unrhyw waith a wneir.

Er enghraifft, yn ystod 2014-15, ymatebodd yr Archwilydd Cyffredinol i ohebiaeth ynglŷn â buddsoddiad Llywodraeth Cymru ym Masn y Rhath (Bae Caerdydd), y Cynllun Mentora Cymheiriaid Camddefnyddio Sylweddau a Ffordd Liniaru'r M4. Yn sail i bob un o'r ymatebion hyn roedd gwaith archwilio sylweddol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru.

# Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio a wnaed yn ystod 2014-15 i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn gyson â'n Cynllun

## Astudiaethau gwerth am arian a gyflawnwyd

- Cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2007-2013
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Glastir
- GIG Cymru: trosolwg o berfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau 2013-14
- Amseroedd aros y GIG ar gyfer gofal dewisol
- Gofal iechyd parhaus y GIG - adroddiad dilynol
- Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru

## Astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill

- Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf
- Consortia addysg rhanbarthol
- Caffaeliad Llywodraeth Cymru o Faes Awyr Caerdydd
- Gwasanaethau rheilffordd
- Rheoli risg o lifogydd ac erydiad
- Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru
- Darlun o wasanaethau cyhoeddus
- Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio
- Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
- Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad cyhoeddus
- Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol

## Adroddiadau cryno a gyflawnwyd neu sydd ar y gweill

- Menter twyll genedlaethol 2012-13
- Llywodraethu yn y GIG yng Nghymru (memorandwm)
- Rhagnodi ym maes gofal sylfaenol (memorandwm)
- Gwasanaethau orthopaedig

## Archwiliadau ymatebol a gwblhawyd neu sydd ar y gweill

- Arian Cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain - Y Bala
- Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio
- Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru
- Rhestrau aros y GIG a phractis preifat

# Astudiaeth achos: Adolygiad o amseroedd aros y GIG

Ym mis Ionawr 2015 cyhoeddwyd adroddiadau ar amseroedd aros y GIG ar gyfer gofal dewisol yng Nghymru. Daethom i'r casgliad nad yw dull gweithredu cyffredinol GIG Cymru yn sicrhau amseroedd aros cynaliadwy isel. Fodd bynnag, gallai cynlluniau sy'n cael eu datblygu, yn enwedig o ran gofal iechyd darbodus, wella'r sefyllfa pe baent yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Wrth ymgymryd â'n gwaith ar yr astudiaeth hon, gwnaethom y canlynol:

- edrych ar y perfformiad presennol yng ngoleuni pwysau ariannol cynyddol ar y GIG yng Nghymru;
- ystyried achosion sylfaenol perfformiad o ran amseroedd aros; ac
- adolygu cynlluniau ar gyfer rheoli amseroedd aros yn well.

Cymharwyd perfformiad yng Nghymru â pherfformiad yn y DU ac yn rhyngwladol. Arolygwyd cleifion hefyd er mwyn deall eu profiadau o aros am driniaeth.

Yn ein hadroddiad, cydnabuwyd yr heriau sylweddol a wynebir gan y GIG ond awgrymwyd y gellid gwella effeithlonrwydd drwy wneud rhai pethau'n wahanol. Yn benodol, nodwyd enillion posibl o ran adnoddau mewn pum maes allweddol a chanfuwyd cryn le i wneud gwell defnydd o adnoddau presennol drwy leihau gwastraff ac amrywiadau.

Er mwyn hyrwyddo a chefnogi gwelliant pellach, cyhoeddwyd nifer o ddogfennau ychwanegol gennym ochr yn ochr â'n hadroddiad archwilio. Mae'r ddogfen gyntaf, **Crynodeb o Arferion Da ac Addawol**, yn cynnwys astudiaethau achos o Gymru a thu hwnt sy'n tynnu sylw at ddulliau arloesol o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd pob cam o'r llwybr gofal dewisol. Cyhoeddwyd rhestr wirio arfer da gennym hefyd, wedi'i llunio ar sail y cwestiynau allweddol y mae angen i'r Byrddau Iechyd eu gofyn iddynt hwy eu hunain wrth brofi eu perfformiad a'r ffordd y maent yn ymdrin â gofal dewisol.

Ym mis Mai 2015 cynhaliwyd gweithdy gennym i aelodau annibynnol o'r Byrddau Iechyd lle y trafodwyd sut y gellir defnyddio'r Crynodeb a'r rhestr wirio i'w helpu yn eu rheolau craffu a herio.



# Astudiaeth achos: Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru

Gwnaeth ein hadroddiad **Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru** ym mis Chwefror 2015 ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd oddi wrth 58 o'r cyrff cyhoeddus a archwiliwn.

Nid oedd yn syndod canfod, o ystyried y pwysau ariannol parhaus, fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwneud defnydd helaeth o ymadawiadau cynnar yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn helpu i leihau eu biliau cyflog. Gadawodd tua 10,700 o staff eu swyddi drwy wahanol drefniadau ymadael yn gynnar rhwng mis Ebrill 2010 a mis Rhagfyr 2013, gyda chost ymlaen llaw o £254 miliwn.

Dros amser, efallai y bydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn arbed hyd at tua £305 miliwn y flwyddyn o ganlyniad i'r ymadawiadau cynnar hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl na chaiff yr arbedion hyn eu gwireddu'n llawn am nifer o resymau. Er nad yw union gyfraniad ymadawiadau cynnar yn eglur, lleihaodd costau cyflog staff yn y gwahanol gyrff cyhoeddus a arolygwyd tua £447 miliwn mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14.

Mae'n debygol, hyd y gellir gweld, y bydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i ddefnyddio ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli costau'r gweithlu, yn bennaf yng nghyd-destun y bwriad i ddiwygio llywodraeth leol. Rydym yn amcangyfrif bod tua 2,300 o ymadawiadau eraill yn chwarter olaf 2013-14 ar gost ymlaen llaw o tua £53 miliwn.

Yn ein hadroddiad, pwysleisiwyd pwysigrwydd trefniadau llywodraethu da a chraffu ar gynlluniau ymadael yn gynnar a'r angen i sicrhau eu bod yn gyson â gwaith ehangach ar gynllunio'r gweithlu.

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn defnyddio ein hadroddiad i lywio sesiynau tystiolaeth gyda nifer o gyrff cyhoeddus, a byddem yn disgwyl i bob corff cyhoeddus ystyried ei drefniadau ei hun yng ngoleuni ein hargymhellion. Mae ein tîm Arfer Da yn bwriadu cynnal gweminar dysgu ar y cyd cysylltiedig yn ddiweddarach yn 2015.



# Cyfnewid arfer da

Mae ein ffordd o gyfnewid gwybodaeth wedi cael ei datblygu a'i defnyddio gyda llwyddiant cynyddol dros y pum mlynedd diwethaf. Un o'r ddwy brif ran o'r ffordd rydym yn mynd ati i gyfnewid gwybodaeth yw darparu adnoddau ar-lein am ddim sy'n galluogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, llunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol. Yn benodol, rydym yn anelu at hyrwyddo'r broses o rannu'r wybodaeth hon dros ffiniau sefydliadol, daearyddol a rhyngwladol.

Mae'r rhan arall o'n gweithgarwch yn cynnwys hwyluso sgyrsiau lle y caiff gwersi a ddysgwyd o lwyddiannau a methiannau cymaradwy eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn gynyddol, rydym yn ceisio cyflwyno safbwyntiau a phrofiad arbenigwyr byd-eang yn y sgyrsiau hyn.

## Ein rhaglen o waith arfer da a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, yn gyson â'n Cynllun

### Seminarau dysgu ar y cyd

- Trosglwyddo tir ac eiddo
- Atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng gofal iechyd a chymdeithasol
- Mabwysiadu dulliau ataliol
- Rheoli cyfleusterau
- Ail-lunio gwasanaethau gyda'r cyhoedd
- Arwain rhaglenni a phrosiectau
- Rheoli adnoddau yn effeithiol
- Ymddiriedolwyr
- Llywodraethu
- Protocol tir ac asedau i gynghorau tref a chymuned
- Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

### Gweminarau dysgu ar y cyd

- Archwilio mewnol
- Rheoli risg

### Canllawiau arfer da

- Llywodraethu
- Archwilio mewnol

### Hwyluso allanol ar gyfer cefnogaeth gymunedol a dysgu ar y cyd

- Ysgol haf Academi Wales
- Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus
- Gweithio gyda grwpiau ymarferwyr cyd-gynhyrchu
- Cymdeithas Trysoryddion Cymru
- Her craffu Gwent

## Astudiaeth achos: Edrych ar ... seminarau dysgu ar y cyd ar lywodraethu da

Ffocws y seminarau hyn oedd trafod y ffordd orau y gall swyddogion gweithredol ac anweithredol yn y sector cyhoeddus geisio sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gweithio mor effeithiol ag y bo modd. Gan weithio gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus a Grant Thornton ein nod oedd dwyn ynghyd y syniadau mwyaf cyfredol ac enghreifftiau o arfer da o bob rhan o Gymru a thu hwnt.

Roedd y seminar wedi'i gynllunio i fod yn ddefnyddiol i aelodau, rheolwyr a swyddogion yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys arweinwyr, Aelodau Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio ac Aelodau, Cadeiryddion Craffu, Prif Archwilwyr Mewnol, Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, Ysgrifenyddion ac Aelodau Byrddau.

Cafodd y rhai a fu'n bresennol yn y seminarau ar ddechrau mis Rhagfyr 2014 drafodaethau ar y canlynol:

- pwysigrwydd llywodraethu da, yn enwedig o ran sicrhau newid diwylliannol mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus;
- goblygiadau llywodraethu gwael;
- sut i gael sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gadarn; a
- dulliau gwahanol o sicrhau gwell trefniadau llywodraethu ymhlith amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.





# Astudiaeth achos: Seminar dysgu ar y cyd ar wneud gwell defnydd o asedau cyhoeddus

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i wynebu heriau cyllidebol sylweddol, ac yn ystod y deng mlynedd nesaf, mae'n debygol y bydd tri o'r gwasanaethau pwysicaf sef iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn mynd â'r mwyafrif llethol o'r arian cyhoeddus sydd ar gael. Er mwyn cynnal a thrawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y rhai y tu allan i'r tri pwysicaf, mae'n hanfodol bod tir neu asedau'r sector cyhoeddus yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl.

Yn y seminar hwn, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2015 mewn partneriaeth â'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol, canolbwyntiwyd ar drafod a rhannu enghreifftiau o ddulliau arloesol a chydweithredol o reoli asedau.

Roedd y seminar hwn wedi'i anelu at Brif Weithredwyr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, Cyfarwyddwyr Cyllid, Penaethiaid Tai, Penaethiaid Adfywio, Penaethiaid Partneriaeth, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chyfarwyddwyr Ystadau.

Yn ystod y trafodaethau rhoddwyd pwyslais arbennig ar faterion a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- trosglwyddo ased cymunedol o un sefydliad i un arall;
- mynd ati i reoli asedau'r sector cyhoeddus mewn ffordd gydweithredol;
- ymdrin ag eiddo'r sector cyhoeddus nad oes ei angen mwyach; a
- gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu ased cymunedol newydd.

# Ymgysylltu a chydweithio

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o ddatblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl ac estyn ei gyrhaeddiad a'i effaith.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i gydweithio'n agos ag asiantaethau archwilio eraill y DU drwy'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus[2], a chyda'r prif gyrff adolygu allanol yng Nghymru drwy fenter Arolygu Cymru, er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus ac effaith gyfunol ein gwaith. Rydym yn cynrychioli Cymru ar y llwyfan archwilio rhyngwladol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gwneud trefniadau gyda mathau penodol o gyrff er mwyn i'r swyddfa neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu arfer eu swyddogaethau. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

2 Mae'r asiantaethau archwilio cyhoeddus, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, y Comisiwn Archwilio Awdurdodau Lleol a'r Gwasnaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr, Swyddfa Archwilio Cymru ac Audit Scotland wedi sefydlu'r Fforwm Archwilio Cenedlaethol i roi ffocws i syniadau datblygiadol ym maes archwilio cenedlaethol. Prif rôl y Fforwm yw ymgynghori a chynghori. Ni all gyfarwyddo'r asiantaethau archwilio cenedlaethol na chyrff eraill sy'n ymwneud ag archwilio cyhoeddus.

# Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o weithgarwch ar y cyd a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, yn gyson â'n Cynllun

## Cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig

- Menter Twyll Genedlaethol gydag astudiaethau archwilio eraill y DU
- Gweithio gydag Estyn i gynnal astudiaethau gwerth am arian o Gonsortia Gwella Addysg Rhanbarthol
- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r astudiaeth o annibyniaeth pobl hŷn
- Ardystio cyfrifon Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Ewrop (EAGF) a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yn flynyddol
- Adolygiad dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cynnal cynhadledd i edrych ar y prif faterion sy'n deillio o waith Comisiynwyr Cymru, yr Ombwdsman a'r Archwilydd Cyffredinol

## Cyfranogi gyda statws arsyllwr ar weithgorau allanol

- Cyngor Partneriaeth Cymru
- Bwrdd Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol
- Grŵp cefnogi a chyfeirio Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- Bwrdd Gweithredu Trysorlys Llywodraeth Cymru
- Fforwm Treth Cymru y Gweinidog Cyllid
- Panel cynghori ar gyfer adolygu rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Plant
- Bwrdd Fframwaith Arolygu Awdurdodau Lleol AGGCC
- Bwrdd Uned Data Llywodraeth Leol
- Bwrdd Prosiect Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub

## Gwaith archwilio a gomisiynwyd

- Archwiliadau Colegau Addysg Bellach
- Archwilio hawliadau grant yr UE ar gyfer Prifysgol De Cymru
- Adolygiad ar gyfer Llywodraeth Cymru o effaith datblygiad digidol o ran gwella canol trefi
- Adolygiad o lywodraethiant a'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Prif Archwilydd ac archwiliad o gyfrifon Llywodraeth Anguilla
- Rheoli gwastraff a grwpiau meincnodi gwastraff masnach

## Aelodaeth o weithgorau allanol

- EURORAI
- Rhwydwaith Adrodd Integredig Sector Cyhoeddus y Cyngor Adrodd Integredig Rhyngwladol
- Fforwm Archwilio Cyhoeddus
- Bwrdd Cynghori Adroddiadau Ariannol
- Bwrdd Cod Awdurdod Lleol CIPFA/LASAAC
- Pwyllgor Archwilio'r Sector Cyhoeddus ICAEW
- Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA
- Menter Arolygu Cymru
- Grŵp cyswllt arolygiaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Diwygio Budd-dal Tai a Lles y DU
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Panel Ymgynghorol'Cadw Cyswllt ACEM

# Astudiaeth achos: Paru data

Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddwyd canfyddiadau Menter Twyll Genedlaethol 2012-13 gennym. Caiff ei chynnal bob dwy flynedd i baru data rhwng sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu’n wallus. Cynhelir y Fenter yng Nghymru ar y cyd ag ymarferion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn ei gwneud yn bosibl i baru data ar draws ffiniau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru a phob awdurdod unedol, awdurdod heddlu, awdurdod tân a phob un o gyrff y GIG yn cymryd rhan yn yr ymarfer.

O ganlyniad i ymarfer 2012-13 gwnaeth cyrff cyhoeddus yng Nghymru ganfod ac atal twyll a gwallau gwerth dros £4 miliwn, gydag effaith gronnol o fwy na £26 miliwn ers i’r fenter ddechrau yng Nghymru yn 1996. Ymhlith yr achosion o dwyll a nodwyd roedd hawliadau anwir am fudd-dal tai, pensiynau’r sector cyhoeddus a disgowntiau treth gyngor.

O ganlyniad, mae’r ymarfer paru wedi arwain at ddiddymu neu ganslo:

- mwy na 700 o ddisgowntiau treth gyngor;
- mwy na 300 o hawliadau twyllodrus neu wallus am fudd-dal tai;
- bron 5,000 o docynnau teithio rhatach; a
- mwy na 600 o drwyddedau parcio bathodyn glas lle nad oedd deiliaid yn gymwys.

Cafodd 40 o unigolion eu herlyn yn llwyddiannus am droseddau a oedd yn ymwneud â thwyll a chafodd 73 o unigolion eraill a oedd wedi hawlio budd-dal tai yn amhriodol rybuddion swyddogol gan awdurdod lleol neu gosbau gweinyddol.

Mae ymarfer newydd ar gyfer 2014-15 yn mynd rhagddo. Mae’r ymarfer diweddaraf wedi cyflwyno modiwl newydd ar **Wirio Ceisiadau**, gyda’r nod o helpu i nodi ceisiadau twyllodrus neu wallau posibl am fudd-daliadau, gwasanaethau neu gyflogaeth cyn i unrhyw benderfyniadau dyfarnu gael eu gwneud. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth newydd hwn yn chwarae rôl allweddol o ran atal twyll rhag digwydd yn y lle cyntaf a dileu’r angen am ymchwiliadau costus a llafurus i achosion.



# Astudiaeth achos: Gweithio gydag Estyn i adolygu consortia addysg rhanbarthol



Yn 2011, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai awdurdodau unedol yng Nghymru weithio gyda'i gilydd mewn pedwar consortiwm addysg rhanbarthol er mwyn codi safonau ysgol a gwireddu arbedion effeithlonrwydd. Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol** a amlinellodd ei disgwyliadau ynglŷn â sut y dylai'r consortia weithio.

Yng ngoleuni'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu a gweithredu'r trefniadau consortia arloesol hyn, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaeth o'u trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol. Tua'r un adeg, roedd Estyn yn bwriadu cynnal adolygiad o gymorth gwella rhanbarthol i ysgolion. Felly cytunwyd y dylem gydgysylltu ein proses o gasglu tystiolaeth a'n gwaith maes er mwyn osgoi dyblygu gwaith a sicrhau effeithlonrwydd ac effaith gyfunol fwyaf ein gwaith.

Cynhaliodd timau o Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ymweliadau gwaith maes ar y cyd yn 2014-15 yn y pedwar consortiwm. Drwy gydweithio a rhannu tystiolaeth a chyfweliadau, cafodd y timau ddarlun cynhwysfawr o faint o gynnydd roedd yn cael ei wneud a rhoddwyd adborth ar y cyd i bob consortiwm. Cafodd llawer o argymhellion ynglŷn â gwelliant eu rhoi ar waith yn gyflym. Roedd ein hadroddiadau yn ategu ei gilydd ac yn gyson â'i gilydd a chawsant eu cyhoeddi ar yr un pryd.

Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd ar 3 Mehefin 2015, i'r casgliad bod sylfeini ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol, ar ôl cychwyn ansicr, yn cael eu sefydlu, ac er bod gwendidau o hyd, fod rhai arwyddion cadarnhaol o gynnydd.

# Rhedeg y busnes

## Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Fel y'i rhagnodwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013, rydym bellach yn y sefyllfa unigryw o gael aelodau anweithredol a gweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal ag aelodau etholedig sy'n gyflogeion, er mwyn rhoi dimensiwn ychwanegol o fewnwelediad a phrofiad. Mae ein trefniadau llywodraethu newydd yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni ddatblygu ymhellach fel busnes.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru strwythur uwch reoli hefyd, sydd â'r nod o gynnig llinellau adrodd ac atebolrwydd clir, a galluogi'r Archwilydd Cyffredinol drwy ei waith i hysbysu'r cyhoedd a dylanwadu ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Ceir amlinelliad o strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiadau ar lywodraethu corfforaethol a rheoli risg ar gyfer y flwyddyn, a disgrifiad o'r prif risgiau ac achosion o ansicrwydd a wynebwyd yn 2014-15, yn y Datganiad Llywodraethu.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn ystod 2014-15 yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Un ffordd werthfawr o werthuso effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu ac arwain yw drwy gynnal arolygon o randdeiliaid. Cynhaliwyd ein harolwg diwethaf ym mis Mai a mis Mehefin 2014, ac mae llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolwg yn dangos sefyllfa gadarnhaol, ac mewn rhai achosion, sefyllfa sydd wedi gwella ers yr arolwg diwethaf yn 2012:

- roedd gan 74 y cant o'r rhai a ymatebodd hyder mawr yn ein gwaith archwilio ac ni fynegodd neb ddiffyg hyder;
- dywedodd 75 y cant o'r rhai a ymatebodd ein bod yn cynnig gwerth da neu wych am arian; ac
- roedd 90 y cant o'r rhai a ymatebodd o'r farn ein bod yn sylwebydd awdurdodol ar sefyllfa ariannol cyrff cyhoeddus.

Nododd ein rhanddeiliaid hefyd nifer o feysydd lle roeddent yn teimlo fod angen datblygiad pellach, gan gynnwys mewn perthynas â gwella gweithio mewn partneriaeth â chyrff arolygu a rheoleiddio, ac rydym yn parhau i ystyried eu barn a'u sylwadau yn ein gwaith cynllunio busnes parhaus.

# Ein defnydd o adnoddau

Rydym wedi gweithio'n galed i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd rydym yn neilltuo adnoddau ar gyfer gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, ers nifer o flynyddoedd. Mae a wnelo datblygu cynaliadwy â diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

## Gwaith rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd

Daw tua dwy ran o dair o arian Swyddfa Archwilio Cymru o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â chynllun ffioedd a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Daw'r gweddill yn bennaf drwy arian o Gronfa Gyfunol Cymru (a gymeradwyir unwaith eto gan y Cynulliad Cenedlaethol) a grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith asesiadau gwella mewn cyrff llywodraeth leol.

Yn y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol sylweddol, erys rheoli ariannol cadarn a chosteffeithlonrwydd yn flaenoriaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru. Ar ôl addasiadau cyfrifyddu, roedd ein gwariant gweithredol £0.3m yn llai yn 2014-15 nag ydoedd yn y flwyddyn flaenorol. Roedd swyddi staff gwag yn ffactor sylweddol a gyfrannodd at hynny; cawsom anawsterau penodol o ran recriwtio archwilwyr ariannol oherwydd cystadleuaeth gref y farchnad. Nid oedd angen i ni ddefnyddio cronfa wrth gefn gyffredinol gwerth £0.2m a ddelir o fewn y gyllideb gymeradwy, a ddychwelwyd wedyn i Gronfa Gyfunol Cymru ynghyd â £0.5m o arian arall nas defnyddiwyd.

Yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2014-15, nodwyd gofyniad i fuddsoddi mewn system rheoli gwybodaeth archwilio newydd, ac efallai y byddai angen ceisio arian cyfalaf ychwanegol drwy Amcangyfrif Atodol yn ystod y flwyddyn. Drwy reoli ein hadnoddau'n ofalus, yn lle hynny, roeddent yn gallu ariannu'r buddsoddiad hwn yn fewnol gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i drosglwyddo £0.2m o'n harian refeniw presennol i arian cyfalaf. Bydd y system newydd yn sicrhau parhad busnes ac yn gwella effeithlonrwydd o ran casglu, trin a rhannu data.

Mae'n rhaid i'n gweithlu fod yn ddigon symudol i gyflawni rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol yn effeithiol mewn cyrff cyhoeddus ledled Cymru. Yn ystod 2014-15, teithiwyd tua 806,000 o filltiroedd dros 17,600 o deithiau (o gymharu â 824,000 o filltiroedd dros 17,300 o deithiau yn 2013-14). Cafwyd cyfanswm o £1.3 miliwn o gostau teithio, trafnidiaeth a chynhaliaeth yn ystod 2014-15 (2013-14 £1.2 miliwn), yr oedd £930,000 o'r swm hwnnw yn ymwneud â cheir ar brydles a lwfansau trafnidiaeth neu filltiroedd ar gyfer staff, £84,000 ar gyfer defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gyda'r gweddill yn ymwneud â llety a chynhaliaeth.

Mae adolygiad wrthi'n cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod y ffordd rydym yn ymdrin â threfniadau trafnidiaeth yn seiliedig ar egwyddorion clir i gefnogi gweithio symudol ar lefel briodol. Bydd yr adolygiad yn gwneud argymhellion yn gyson â'n cyfrifoldebau a'n dyletswyddau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles staff, cynaliadwyedd amgylcheddol, sicrhau gwerth am arian yn ein trefniadau trafnidiaeth, a chyda'r gofyniad o dan y Safon Foesegol i gylchdroi ein harchwilwyr ariannol rhwng aseiniadau archwilio o bryd i'w gilydd.

Ein nod yw talu 95 y cant o anfonebau cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o'u derbyn, yn seiliedig ar fonitro taliadau yn barhaus. Yn 2014-15 talwyd bron 99% o anfonebau yn brydlon (o gymharu â 96% yn 2013-14). Gwnaed 86 y cant o daliadau o fewn 10 diwrnod i dderbyn anfonebau.

Mae manylion ynglŷn â sut y cafodd rhwymedigaethau mewn perthynas â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil eu trin yn ein cyfrifon wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth (tudalennau 59 i 67) ac yn Nodyn1(iv) o'r Nodiadau i'r Cyfrifon. Nid oes unrhyw rwymedigaethau o ran taliadau a wnaed i bensiynau cyfranddeiliaid.

Rhoddodd adroddiadau Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn sicrwydd sylweddol ynglŷn â'n rheolaethau ariannol allweddol a'n trefniadau cyflogres.

## Ansawdd ein gwaith

Mae ansawdd cyffredinol ein gwaith o'r pwys mwyaf i ni a'n rhanddeiliaid. Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol, ar ôl cyfnod o ymgynghori allanol, God Ymarfer Archwilio diwygiedig, ynghyd â Datganiad o Arfer a oedd yn ymwneud ag archwiliadau ac asesiadau gwella a swyddogaethau arolygu arbennig llywodraeth leol. Mae'r Cod a'r Datganiad yn nodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ddwy ddogfen wedi'u cynllunio i ategu Safonau Archwilio Rhyngwladol ac ymgorffori arfer gorau proffesiynol.

## Egwyddorion archwilio

| | |
|---|---|
| 1 | **Ffocws ar y cyhoedd**<br>Cynhelir archwiliad ar ran ac er budd y cyhoedd. Mae gan y cyhoedd fuddiant dilys mewn gwaith archwilio, a dylid eu cynnwys yn ei brosesau. |
| 2 | **Annibynnol**<br>Mae'n rhaid i'r archwiliad fod yn annibynnol, ac ymddangos felly hefyd. Dylai archwilwyr adrodd yn gyhoeddus heb i unrhyw ofn na ffafriaeth ddylanwadu arnynt. |
| 3 | **Cymesur**<br>Mae angen rhoi digon o le i gyrff archwiliedig gyflenwi gwasanaethau o safon. Dylent fod yn destun lefelau craffu digonol, ond nid gormodol. |
| 4 | **Atebol**<br>Ariennir archwilwyr o'r pwrs cyhoeddus, ac maent yn atebol am warchod yr adnoddau a ddarperir iddynt. Mae'n rhaid iddynt weithio mewn modd darbodus, effeithilon ac effeithiol. |
| 5 | **Cynaliadwy**<br>Mae'n rhaid cyflawni gwaith archwilio  ar ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol wrth i gyrff archwiliedig wneud penderfyniadau ac adrodd mewn modd integredig. |

Canfu ein cylch diweddaraf o Adolygiadau Rheoli Ansawdd mewnol fod yr holl waith archwilio a ystyriwyd yn cyrraedd y safonau gofynnol neu'n rhagori arnynt. Yn 2014-15 parhawyd i weithio gyda sefydliadau archwilio cyhoeddus eraill y DU i gynnal rhaglen o adolygiadau cymheiriaid dros ein gilydd a'i datblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod ein trefniadau ansawdd yn parhau i wella. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd hefyd i gwblhau ail flwyddyn o gontract tair blynedd ag Adran Sicrhau Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). Mae'r contract wedi'i gynllunio i sicrhau bod ein prosesau adolygu ansawdd yn agored i drylwyredd allanol.

Mae Adroddiad ar Dryloywder ar gyfer 2013-14, sy'n rhoi mwy o fanylion ynglŷn â sut mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyrraedd safonau uchel yn y ffordd y mae'n gweithio ac o ran ansawdd ei gwaith, ar gael ar ein gwefan; caiff adroddiad tebyg ar gyfer 2014-15 ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2015.

Hefyd, parhaodd yr Archwilydd Cyffredinol i gydweithredu â rheoleiddwyr ac arolygiaethau perthnasol megis Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn helpu i sicrhau proses archwilio, arolygu a rheoleiddio gydgysylltiedig o safon uchel ar gyfer pob un o wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae rhanddeiliaid allanol yn parhau i fynegi barn gadarnhaol ar ansawdd ein gwaith, yn ôl yr ymatebion i'n harolwg o randdeiliaid ynglŷn â chadernid y dystiolaeth sy'n sail i'n dyfarniadau, ac ynglŷn ag eglurder a chydbwysedd negeseuon yn ein hadroddiadau.

## Recriwtio, cynllun hyfforddeion a phrofiad gwaith

Fel corff archwilio proffesiynol a darparwr hyfforddiant achrededig â thri chorff cyfrifyddu proffesiynol, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymrwymedig i raglen dreigl o recriwtio hyfforddeion. Drwy ein hymgyrchoedd recriwtio blynyddol anelwn at ddenu ymgeiswyr o'r safon orau bosibl.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15, llwyddodd 12 o hyfforddeion i symud ymlaen i gamau nesaf eu hastudiaethau, gan gyflawni cyfradd pasio ar y cynnig cyntaf o 82 y cant ar gyfer arholiadau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). Enillodd Dylan Rees sawl gwobr fel hyfforddai ar ôl ei lwyddiannau yn 2013-14, gyda gwobr am ei ganlyniadau ar Drethiant.

Llwyddodd pedwar hyfforddai blwyddyn olaf i basio pob un o'u harholiadau terfynol ar y tro cyntaf ac maent bellach yn gwneud cais i fod yn aelodau Siartredig llawn o ICAEW. Cafodd Swyddfa Archwilio Cymru enwebiad Kaplan hefyd a chyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer gwobr Rheolwr Hyfforddiant y Flwyddyn Gwobrau PQ am y cymorth a roddwyd gennym i'n hyfforddeion.

Yn ogystal â'u hastudiaethau proffesiynol, rydym yn rhoi hyfforddiant pwrpasol a phrofiad gwaith perthnasol i'r hyfforddeion. Yn ystod eu hyfforddiant dros bedair blynedd, maent yn treulio amser yn gweithio gyda thimau archwilio amrywiol, gan wneud cyfraniad allweddol i'n llwyddiant cyffredinol.

Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith yn Swyddfa Archwilio Cymru drwy ein cysylltiadau â Gyrfa Cymru ac ysgolion a phrifysgolion lleol. Yn ystod 2014-15, bu saith myfyriwr ar leoliad gwaith gyda ni.

Cawsom anawsterau sylweddol i recriwtio aelodau o'r tîm archwilio ariannol yn ystod y flwyddyn, o ganlyniad i rym y farchnad. Rydym wrthi'n adolygu niferoedd ein staff, cymysgedd sgiliau a lefelau cyflogau gyda'r nod o oresgyn yr anawsterau hyn yn 2015-16.

# Dysgu a datblygu

Rydym yn parhau i fuddsoddi er mwyn dysgu a datblygu ein staff i'w helpu i gyflawni eu gwaith. Yn 2014-15, cynyddodd faint o amser a dreulir ar gyfartaledd gan bob cyflogai ar ystod o weithgareddau dysgu a datblygu o wyth i ddeg diwrnod. Cafodd rhywfaint o'r hyfforddiant ei gynllunio a'i ddarparu'n fewnol, a lle y bo'n briodol ac yn gost-effeithiol, comisiynwyd cymorth hyfforddiant allanol hefyd i roi hyfforddiant yn unol â'n gofynion penodol.

Yn ystod 2014-15, cyflawnwyd y trydydd cam a'r cam olaf o raglen Tanio, sef ein rhaglen i ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau drwy reoli a chymell timau'n effeithiol, ac mae'n cyfuno sesiynau dysgu bach â gwaith maes ar astudiaethau achos. Cawsom adborth cadarnhaol gan y rhai a gymerodd ran.

Rhoddwyd system Hunanwasanaeth i Gyflogeion ar waith hefyd, lle mae staff yn gallu chwilio am gyrsiau hyfforddiant cymeradwy ac archebu lle a chofnodi pob gweithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus. Mae ffurflen werthuso electronig yn ein galluogi i gofnodi canlyniadau'n gyflym ac yna fesur llwyddiant ac effaith y cyrsiau hyfforddiant. Teimlai 97 y cant o staff fod y cyrsiau a fynychwyd ganddynt yn 2014-15 yn effeithiol o ran eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

'Fe wnaeth wir wneud i mi feddwl mwy am y ffordd rwy'n gweithio a hefyd fy nghryfderau a'm gwendidau. Mae'r her elusen yn hynod ddiddorol... Tanio oedd y cwrs gorau rwyf wedi'i ddilyn hyd yma yn ystod fy wyth mlynedd yn Swyddfa Archwilio Cymru'

# Gwarchod yr amgylchedd

Rydym wedi cael ein hailachredu ar Lefel 4 (y lefel uchaf ond un) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar gyfer 2014-15, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Rydym bellach yn gweithio tuag at gyflawni Lefel 5 (y lefel uchaf) erbyn 2016-17.

Yn ystod y flwyddyn, mewn ymgais i leihau cyfanswm ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr, cyflwynwyd terfyn uchaf is o 125g/km ar gyfer cerbydau fflyd a fflyd lwyd o fis Hydref 2014.

Cafodd ychydig dros 40 y cant o'n gwastraff yn 2014-15 ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Rydym yn ymrwymedig i wella'r ffigur hwn ymhellach, fel y dangoswyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16, lle rydym wedi pennu targedau mwy heriol ar ein cyfer ein hunain, sef 60 y cant yn 2015-16 a 70 y cant erbyn 2018.

Lleihawyd y defnydd o bapur a dŵr yn 2014-15, a buddsoddwyd ymhellach yn ein cyfleusterau fideo-gynadledda, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi gweithio hyblyg a lleihau nifer y teithiau diangen a'u costau cysylltiedig.

## Hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ac yn ymfalchïo yn hynny. Ein Cynllun Iaith Gymraeg yw’r sail dros y ffordd rydym yn gweithredu ac mae’n amlygu ein penderfyniad i drin y Gymraeg a’r Saesneg ar sail gyfartal. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog ac rydym yn cyfathrebu â’r cyhoedd, cyrff a archwilir a’r cyfryngau yn y ddwy iaith.

Yn ystod 2014-15, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ymateb ar y cyd i ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i safonau. Bydd safonau’r Gymraeg yn disodli’r system bresennol o gynlluniau iaith Gymraeg yn y pen draw.

Achubwyd ar y cyfle hefyd i adolygu ein trefniadau presennol ymhellach. O ganlyniad, nodwyd nifer o gamau y mae angen i ni eu cymryd ac rydym wedi dechrau eu cymryd i atgyfnerthu ein gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn y tymor hwy.

Ochr yn ochr ag ymgais ragweithiol i recriwtio archwilwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg, cwblhaodd ein staff asesiadau ar-lein i fesur eu rhuglder yn Gymraeg ar hyn o bryd a rhoi data cywir i ni ar eu medrusrwydd.

Drwy’r wybodaeth hon rydym wedi gallu rhoi’r hyfforddiant i staff sydd fwyaf addas i’w hanghenion. O ganlyniad mae nifer o staff wedi ymgofrestru â chyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, yn amrywio o lefel ‘cwrdd a chyfarch’ sylfaenol i lefelau medrusrwydd uwch. Caiff y wybodaeth ei defnyddio hefyd i lywio ein gwaith ar gynllunio’r gweithlu, gan ein helpu i sicrhau bod gennym y bobl gywir, sydd â’r sgiliau iaith cywir, yn y mannau cywir.

Yn ystod 2014-15, diweddarwyd ein trefniadau ar gyfer sicrhau gwasanaethau cyfieithu effeithiol hefyd, drwy ymuno â fframwaith cyfieithu newydd i Gymru gyfan.



## Lles cyflogeion

Rydym yn ymrwymedig i annog ffordd o fyw iach a chydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd ymhlith ein staff. Rydym hefyd am i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn wynebu anawsterau, ni waeth a effeithir ar eu gallu i ymgymryd â'u rôl ai peidio.

Yn 2014-15, datblygwyd polisi lles newydd, wedi'i ategu gan ganllawiau er mwyn cefnogi ein hymrwymiadau a sicrhau bod unrhyw faterion iechyd a lles staff yn cael eu nodi mewn ffordd ragweithiol a sensitif, a'u rheoli mewn ffordd gyfannol a chyfrinachol.

Mae'r Polisi Lles a chyflwyno menter cofnodi mewn amser real ond yn ddwy elfen o fenter ehangach i hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles emosiynol a chorfforol staff drwy'r sefydliad cyfan, sydd hefyd yn cynnwys rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau iechyd a lles.

Mae rhaglen cymorth i gyflogeion hefyd ar gael naill ai drwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein. Mae'r rhaglen cymorth i gyflogeion yn rhoi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

Rydym yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn fanwl ac rydym wedi rhoi nifer o systemau ar waith i helpu staff i ddychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Cafodd 9 diwrnod fesul cyflogai eu colli ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Rydym yn anelu at leihau hyn i 6.5 diwrnod.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth ac urddas yn y gwaith

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ar y Cyd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb. Mae'r Cynllun yn nodi sut rydym yn ceisio dileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da yn ein gwaith a'n gweithgareddau beunyddiol.

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Cynhaliwyd digwyddiad diwrnod ymgynghori ym mis Mehefin 2014 i gyfarfod â grwpiau o bob rhan o Gymru sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, a thrafod y ffordd orau o ymgysylltu'n fwy effeithiol o ran cynllunio, cwmpasu a cheisio barn ar effaith ein gwaith. Ymateb y mwyafrif llethol yn y digwyddiad hwnnw oedd y dylem ymgysylltu drwy'r Gynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a hwylusir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). O ganlyniad i hynny aethom i gyfarfod o'r Gynghrair ym mis Chwefror 2015 i'n helpu i ddeall y ffordd orau o weithio gyda hi ac ymgysylltu'n fwy effeithiol.

Cymerwyd camau yn 2014-15, gan gynnwys drwy weithredu system e-recriwtio, i ddiweddaru a gwella ansawdd ein gwybodaeth am fonitro amrywiaeth cyflogaeth, a fydd yn ei dro yn helpu i ategu adolygiadau mwy effeithiol mewn perthynas â chyflog cyfartal.

Tua diwedd y flwyddyn, penderfynwyd rhoi gwaith ar gontract i gyflenwr allanol i gynnal archwiliad hygyrchedd o'n gwefan i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n weddill sy'n debygol o gyfyngu ar allu rhywun sydd â nam penodol i ddefnyddio ein safle neu ei atal rhag gwneud hynny.

Ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau'n llwyddiannus, byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n safle, gyda'r bwriad o gyflawni'r canlynol:

- tystysgrif achredu gydnabyddedig;
- dilysu ein bod yn bodloni lefel 2.0 AA o Ganllawiau Hygyrchedd Cynnwys ar y We; a
- sicrhau gwell dealltwriaeth o gynhwysiant digidol.

Mae adroddiad llawn ar ein cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2013-14 ar gael ar ein gwefan; caiff adroddiad tebyg ar gyfer 2014-15 ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2015.

## Gweithio gyda'r trydydd sector

Mae Tanio, sef ein rhaglen i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr, yn cynnwys ymarfer astudiaeth achos fyw, lle mae'n rhaid gweithio gydag elusen neu sefydliad arall yn y trydydd sector. Mae'r astudiaeth achos fel arfer yn cynnwys adolygiad dwys o wasanaeth a datblygu atebion i broblemau go iawn, sy'n helpu i ddatblygu ein sgiliau mewnol a chreu timau llwyddiannus.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15, gweithiodd ein staff ar astudiaethau achos gyda Touch Trust a Llamau.

'Roedd Llamau yn falch iawn o gael cyfle i fod yn rhan o raglen Tanio. Fel elusen, gallwn fod yn brin o amser weithiau, felly roedd yn wych cael gwirfoddolwyr allanol i ystyried y materion a wynebwn a chynnig cyngor ac atebion. Roeddem yn fodlon iawn ar ganlyniadau ein her, ac ar y prosesau cyfathrebu drwy gydol y broses.'

Carys Burgess
Swyddog Codi Arian, Llamau

'Mae gweithio gyda thîm Tanio wedi bod yn brofiad anhygoel a gwych i Touch Trust.

Mae wedi bod yn ysbrydoledig ac yn galonogol bod yng nghwmni'r tîm, gan weld y brwdfrydedd, yr arbenigedd yn ogystal â'r tosturi am yr hyn yr ydym yn ei wneud. Roeddem yn gweithio gyda phobl uchel eu cyflawniad sy'n awdurdodau sefydledig yn ein cymuned ac roedd eu gweld yn rhoi o'u hamser a'u profiad gyda chymaint o ymrwymiad i helpu'r rhai sy'n llai ffodus na hwythau, yn gwneud i ni deimlo'n ostyngedig ac yn ysbrydoledig.

Bydd y pecyn a luniwyd ganddynt i ni bellach yn fodel ar gyfer codi arian ac ar gyfer unrhyw gynlluniau codi arian mwy o faint yn y dyfodol. Bydd yn ein helpu i lwyddo fel sefydliad – mae mor bwysig â hynny.'

Dilys Price OBE
Cyfarwyddwr a Sylfaenydd, Touch Trust

# Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo'r staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a datblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal yn y gymuned, prosiectau cadwraeth, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

At hynny, dewisir elusen bob blwyddyn drwy bleidlais y staff i fod yn ffocws i nifer o weithgareddau codi arian a chyfleoedd i ddysgu. Yn ein cynhadledd i'r staff ym mis Ionawr 2014, dewisodd y staff yr elusen Changing Faces fel ffocws eu gweithgareddau codi arian yn 2014-15. Dros y flwyddyn, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian yn eu hamser eu hunain:

- ym mis Mehefin 2014, aeth grŵp o staff ati i gwblhau her taith gerdded 25km 'Tri Chopa Cymru;
- cofrestrodd tîm o staff i gymryd rhan yn hanner marathon Caerdydd 2014 a'i gwblhau; a
- chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys gwerthu teisennau, rafflau a noson gwis.

Cododd y staff gyfanswm o £8,275 at yr elusen.

Ar gyfer 2015-16, Croesffyrdd, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, fydd ffocws gweithgareddau codi arian y staff.

Gall staff hefyd gymryd rhan mewn cynllun 'rhoi wrth ennill' a rhoi cyfran o'u henillion i elusennau o'u dewis.





# Ffocws ein gwaith yn y dyfodol

Ar 30 Mawrth 2015, gosododd yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Gymru Gynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein blaenoriaethau tair blynedd.

Mae'r Cynllun yn:

- disgrifio nodau ac amcanion ein gwaith;
- nodi ein blaenoriaethau wrth arfer ein swyddogaethau ar gyfer 2015-16 ac ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2018;
- rhoi manylion am raglen gwaith archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2015-16;
- nodi'r adnoddau sydd ar gael ac a allai fod ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, a sut y bwriedir defnyddio'r adnoddau hynny yn ein rhaglenni gwaith; a
- disgrifio sut y byddwn yn mesur ac yn cyflwyno adroddiadau ar ein perfformiad.

Mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru yn wynebu nifer o heriau anodd ar hyn o bryd ac mae angen iddynt ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae ein Cynllun yn cynnig glasbrint o'r ffordd y byddwn yn blaenoriaethu ac yn atgyfnerthu ein rhaglenni gwaith yn ystod 2015-16 ac ar gyfer y tair blynedd nesaf fel y gallant ychwanegu'r gwerth mwyaf posibl, a thrwy hynny, gallwn chwarae ein rhan o ran helpu ac annog y sector cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo.

Wrth lunio'r Cynllun yn ystod 2014-15, rhoddwyd sylw penodol i ystyried pa fath o swyddfa archwilio sydd ei hangen ar Gymru yn awr ac yn y dyfodol, y ffordd orau o gydweithio â chyrff adolygu allanol eraill a'n rhanddeiliaid allweddol, a sut y gallwn asesu'n effeithiol p'un a ydym yn cael pethau'n iawn.

Mae ein fframwaith newydd o fesurau perfformiad allweddol a osodwyd yn y Cynllun yn canolbwyntio ar y themâu a'r cwestiynau canlynol ynglŷn â'n gweithgareddau.

## Effaith

I ba raddau y mae ein gwaith yn hysbysu pobl Cymru, yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo, ac yn cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid?

## Cyflawni

A ydym yn cyflawni ein harchwiliadau ar amser neu'n unol â safonau ansawdd a phroffesiynol gofynnol?

## Arweinyddiaeth

A yw ein trefniadau llywodraethu ac arwain yn gweithredu'n effeithiol?

## Ariannol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein cyllid a'n hasedau?

## Cymdeithasol

Pa mor dda rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb, lles a dysgu?

## Amgylcheddol


Pa mor dda rydym yn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd?

## Cyfathrebu

Pa mor dda rydym yn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac yn ennyn diddordeb ynddo?

Cafodd ein cyfres o dargedau eu datblygu drwy gyfeirio at lefelau perfformiad presennol a meincnodau priodol. Byddwn yn craffu ar y targedau ac yn eu mireinio ymhellach yn ystod 2015-16 er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon heriol ond cyflawnadwy o fewn y terfynau amser penodedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am y prif dueddiadau a ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ein datblygiad, ein perfformiad a'n sefyllfa yn y dyfodol o ran llywodraethu corfforaethol a rheoli risg yn y Datganiad Llywodraethu.



**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2015

# Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy’n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag arfer llywodraethu corfforaethol da

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Materion cyffredinol

Mae'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r nodiadau i'r prif ddatganiadau ariannol yn rhoi arwydd o'r ffordd y caiff rhwymedigaethau pensiwn eu trin yn y cyfrifon ac yn cyfeirio at ddatganiadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Ceir gwybodaeth am ein Cofrestr o Fuddiannau a sut y gellir gweld y wybodaeth yn y Gofrestr honno yn y Datganiad Llywodraethu.

Rhoddir data Swyddfa Archwilio Cymru ar absenoldeb oherwydd salwch yn yr Adroddiad Strategol fel rhan o'r crynodeb cymdeithasol a sylwadaeth rheolwyr ar ein defnydd o adnoddau.

Mae gwybodaeth am gofnodi digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol wedi'i chynnwys yn yr adran ar lywodraethu gwybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu.

Mae ffocws ein hadran gwaith o'r Adroddiad Strategol yn y dyfodol yn rhoi amlinelliad o ddatblygiadau tebygol yn y dyfodol o ran busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar 4 Gorffennaf 2013, sefydlodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol newydd ond heb swyddogaethau dal adnoddau. Ar 1 Ebrill 2014, sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn llawn pan drosglwyddwyd staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf 2013. Yn unol â hynny, 2014-15 yw blwyddyn gyfrifyddu lawn gyntaf Swyddfa Archwilio newydd Cymru. Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol a roddir yn y datganiadau hyn yn ymwneud â'r Archwilydd Cyffredinol ac fe'u cyflwynir mewn print italig at ddibenion cymharu yn unig ac nid yw'r rhain yn rhan o'r cyfrifon statudol.

# Pwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru



### Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr



### Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Arianno



### Gillian Body

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Perfformiad



### Alan Morris

Arweinydd Sector, Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol



### Mike Usher

Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog



### Kevin Thomas

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol



### Steve O'Donoghue

Cyfarwyddwr Cyllid

# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru



David Corner

Aelod anweithredol



Lindsay Foyster

Aelod anweithredol



Peter Price

Aelod anweithredol



Steve Burnett

Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



Isobel Garner

Cadeirydd anweithredol

**Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am**

Monitro arfer swyddogaethau'r Arch

Rhoi cyngor i'r Archwilydd C

Cyflogi staff a darparu adnoddau i gyflawni swyddo

Codi ffioedd am waith a wneir gan yr A

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi cynllun blyny



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Prif Weithredwr



Kevin Thomas

Aelod a benodwyd o blith y staff



Amanda Hughes

Aelod a etholwyd o blith y staff



Louise Fleet

Aelod a etholwyd o blith y staff

**y canlynol:**

wilydd Cyffredinol


Cyffredinol

ogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

rchwilydd Cyffredinol

ddol ac amcangyfrif o incwm a chostau


# Siart sefydliadol Swyddfa Archwilio Cymru




Aelodau'r Pwyllgor Rheoli

Nodiadau:

- Mae'r Arweinwyr Sector hefyd yn cadw portffolio o gyfrifoldebau gweithredol y maent yn gweit Cyfarwyddwyr ar eu cyfer, ac yn adrodd yn eu cylch wrth yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwy
- Bydd y Pwyllgor Rheoli a'r Cyfarwyddwyr eraill yn cyfarfod yn rheolaidd fel Tîm Uwch-arweiny
- Cefnogir y Bwrdd a'i Is-Bwyllgorau, a'r Pwyllgor Rheoli, gan Ysgrifennydd Bwrdd.




thredu fel
ol perthnasol.

ddiaeth ehangach.

# Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

Penodwyd Baker Tilly UK Audit LLP yn archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod o dair blynedd yn dechrau 1 Ebrill 2014.

Yn ogystal â'i waith ar lunio barn ar y datganiadau ariannol, mae Baker Tilly hefyd yn cyflwyno adroddiadau gwerth am arian ar Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, sydd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Caiff manylion cost gwasanaethau archwilio allanol eu datgan yn y nodiadau i'r prif ddatganiadau ariannol.

Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'i gymryd er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, a chadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.



**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2015

# Adroddiad Cydnabyddiaeth

## Polisi cydnabyddiaeth

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pennir cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, daw o Gronfa Gyfunol Cymru. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ei chynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn.

### Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Cynulliad, ynghyd â dau aelod etholedig sy'n cyflogeion, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r aelod sy'n gyflogai a enwebwyd ganddo, sef y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nid yw cydnabyddiaeth aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy ac fe'i pennir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn achos y Cadeirydd, daw o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff manylion cydnabyddiaeth Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru eu cynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn. Penodwyd y ddau aelod etholedig sy'n gyflogeion gan aelodau anweithredol y Bwrdd, ar ôl pleidlais gan y staff ym mis Mai 2014. Mae'r lwfansau a roddir iddynt am eu dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Bwrdd wedi'u datgelu yn yr adroddiad hwn. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Bwrdd.

### Aelodau anweithredol pwyllgorau

Yn ogystal ag aelodau anweithredol y Bwrdd, mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi penodi aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pennwyd cydnabyddiaeth ar gyfer y swydd hon gan y Bwrdd ac nid yw'n bensiynadwy.

Cyn sefydlu Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, rhoddwyd Bwrdd Cysgodol a thri phwyllgor llywodraethu ar waith i baratoi'r sefydliad ar gyfer gweithredu Deddf 2013. Penderfynwyd ar gydnabyddiaeth aelodau anweithredol y pwyllgorau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol. Nid oedd y gydnabyddiaeth hon yn bensiynadwy.

### Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Cyflogir pob aelod o staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth pob aelod o staff yn destun ymgynghoriad ag undebau llafur o dan gytudeb cyfunol ac mae'n bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal swyddi penagored. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

# Manylion taliadau cydnabyddiaeth

Mae’r adrannau canlynol yn rhoi manylion o gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn yr Archwilydd Cyffredinol a phrif uwch reolwyr (h.y. aelodau’r Pwyllgor Rheoli) Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd ac aelodau o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a phwyllgorau anweithredol blaenorol.

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

Codir costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid Swyddfa Archwilio Cymru sy’n eu talu. Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Mr Huw Vaughan Thomas, gan Ei Mawrhydi’r Frenhines a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Hydref 2010 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu.

Cost cyflog gros yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2014-15 oedd £153,000 (2013-14: £151,500.

Mae Mr Huw Vaughan Thomas wedi dewis cyfrannu at gyfrif pensiwn partneriaeth (math o bensiwn cyfranddeiliaid personol y mae cyflogwr yn cyfrannu ato). Gwnaed cyfanswm o £27,927 o gyfraniadau i’r cyfrif hwn yn ystod 2014-15 (gan gynnwys cyfraniadau o £23,079 gan y cyflogwr a chyfraniadau o £4,848 gan yr aelod) (2013-14: £27,217 gan gynnwys cyfraniadau o £23,303 gan y cyflogwr a chyfraniadau o £3,914 gan yr aelod).

Caiff y wybodaeth ganlynol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ei harchwilio.

## Uwch reolwyr

Cafodd y Pwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn ystod 2014-15 roedd yn cynnwys y canlynol hefyd:

| | Dyddiad eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru neu sefydliad rhagflaenol | Dyddiad eu penodi i'r swydd | Dyddiad terfynu | Contract |
|---|---|---|---|---|
| **Anthony Barrett** (Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Ymarfer Archwilio Ariannol) | 24/01/2001 | 01/04/2014 | Dd/G | Parhaol |
| **Gillian Body** (Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Ymarfer Archwilio Perfformiad) | 02/09/1981 | 01/04/2014 | Dd/G | Parhaol |
| **Alan Morris** (Arweinydd Sector Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol) | 16/10/2000 | 01/04/2014 | Dd/G | Parhaol |
| **Steven O'Donoghue** (Cyfarwyddwr Cyllid) | 28/04/2014 | 28/04/2014 | Dd/G | Parhaol |
| **Kevin Thomas** (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) | 26/10/1992 | 01/04/2014 | Dd/G | Parhaol |
| **Mike Usher** (Arweinydd Sector y GIG a Llywodraeth Ganolog) | 17/09/1987 | 01/04/2014 | Dd/G | Parhaol |

Mae Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli yn destun adoygiad blynyddol o berfformiad. Y cyfnod rhybudd i bob aelod yw 12 wythnos. Pe bai contract unigolyn yn cael ei derfynu'n gynnar, ac eithrio am achos o gamymddwyn, byddai'n cael iawndal am golli ei swydd.

## Manylion taliadau cydnabyddiaeth uwch reolwyr

Mae’r tabl canlynol yn nodi gwybodaeth am gydnabyddiaeth mewn perthynas ag aelodau o’r Pwyllgor Rheoli.

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 | | | | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog[1] | Bud-diannau mewn dad[2] | Treuliau trethadwy | Cyfan-swm heb gynnwys pensiwn | Budd-daliad pensiwn[3] | Cyfanswm cydnabyd-diaeth mewn ffigur sengl | Cyflog | Bud-diannau mewn da | Treuliau trethadwy | Cyfan-swm heb gynnwys pensiwn | Budd-dalia pensiwn | Cyfanswm cydnabyd-diaeth mewn ffigur sengl |
| | Bandiau o £5,000 | I’r £100 agosaf | I’r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | I’r £1000 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £5,000 | I’r £100 agosaf | I’r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | I’r £1000 agosaf | Bandiau o £5,000 |
| Anthony Barrett | 115-120 | 4,700 | 14,300 | 130-135 | 26 | 160-165 | 115-120 | 4,600 | 19,800 | 140-145 | 32 | 170-175 |
| Gillian Body | 120-125 | - | - | 120-125 | 13 | 135-140 | 120-125 | - | - | 120-125 | (172) | (50-55) |
| Alan Morris[4] | 90-95 | 2,200 | - | 90-95 | 94 | 185-190 | - | - | - | - | - | - |
| Steven O’Donoghue[5] | 70-75 | - | - | 70-75 | 42 | 110-115 | - | - | - | - | - | - |
| Kevin Thomas | 115-120 | 3,500 | 19,600 | 135-140 | 62 | 200-205 | 105-110 | 4,600 | 16,100 | 125-130 | 33 | 160-165 |
| Mike Usher[4] | 105-110 | - | - | 105-110 | 13 | 115-120 | - | - | - | - | - | - |

1 Gan gynnwys lwfans trafnidiaeth a dalwyd i Gillian Body a Kevin Thomas. Mae gan Mike Usher yr hawl i gael lwfans trafnidaeth, ond nis hawliodd yn ystod 2014-15. Nid oes gan Steven O’Donoghue hawl gael i lwfans trafnidaeth.

2 Ceir ar brydles

3 Mae buddion pensiwn a ffigurau cymharol wedi eu cynnwys yn unol â FReM 2014-15. Yn flaenorol, roedd cyfraniadau cyflogwr yn cael eu datgelu.

4 Daeth Alan Morris a Mike Usher yn aelodau o’r Pwyllgor Rheoli ar 1 Ebrill 2014

5 Ymunodd Steven O’Donoghue â Swyddfa Archwilio Cymru ar 28 Ebrill 2014

Caiff y gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy’n ennill y cyflog mwyaf a chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu ei dangos yn y tabl canlynol.

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy’n ennill y cyflog mwyaf heb gynnwys cyfraniadau pensiwn (£’000) | 135-140 | 140-145 |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth canolrifol yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) (£) | 44,704 | 43,499 |
| Cymhareb cydnabyddiaeth | 3.100 | 3.225 |

Yn 2014-15, ni chafodd unrhyw gyflogeion (2013-14: dim) gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf. Roedd y gydnabyddiaeth yn amrywio o £14,900 i £138,575 (2013-14: £20,340-£142,960). Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, lwfans trafnidiaeth a buddiannau mewn da. Yn achos y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, mae hefyd yn cynnwys treuliau trethadwy. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) o bensiynau.

Nid oes unrhyw ofyniad i ddatgelu cyflog yr Archwilydd Cyffredinol gan ei fod yn cael ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, £153,000 oedd cyfanswm ei gydnabyddiaeth (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) sef 3.423 gwaith cyfanswm cydnabyddiaeth ganolrifol Swyddfa Archwilio Cymru (2013-14: £151,500, cymhareb: 3.483).

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall (e.e. lwfans trafnidiaeth) i'r graddau ei fod yn destun trethiant yn y DU.

## Buddiannau mewn da

Gwerth ariannol buddiannau mewn da yw buddiannau ceir ar brydles a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) fel enillion trethadwy.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu budd-dal marw yn y swydd sy'n cyfateb i flwyddyn o gyflog ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n marw tra'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Cost flynyddol y cynllun hwn yn 2014-15 oedd £10,684 (2013-14: £11,424). Polisi yswiriant grŵp yw hwn, ac fel y cyfryw ni ellir ei briodoli'n uniongyrchol i unrhyw aelod penodol o staff ac felly ni chaiff ei gynnwys yn y tabl uchod.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu bonysau i unrhyw aelodau o staff.

## Treuliau trethadwy

Fel y'i datgelwyd yn Nodyn 15, mae'r cyfrifon yn cynnwys darpariaeth ar gyfer setliad TWE posibl gyda CThEM gan nad yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithredu TWE mewn perthynas â rhai treuliau a dalwyd i rai grwpiau o staff cyn 2012-13. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys trethiant a chyfraniadau yswiriant gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i Kevin Thomas ac Anthony Barrett ar gyfer teithio i'w prif fan gwaith, ac ar gyfer 2011-12 roedd hefyd yn cynnwys budd-dâl graddfa tanwydd. Datgelir gwerth y taliadau hyn, gan gynnwys treth, yn y tabl uchod a gwneir y taliadau priodol i CThEM.

Rhoddir gwybodaeth am dreuliau aelodau o'r Pwyllgor Rheoli ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Manylion pensiwn uwch reolwyr

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2015 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2015 | CETV ar 31 Mawrth 2014 | Cynnydd gwiri-oneddol mewn CETV | Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf |
| Anthony Barrett | 35-40 | 0-5 | 574 | 518 | 12 | 0 |
| Gillian Body | 45-50 yn ogystal â chyfandaliad o 145-150 | 0-5 yn ogystal â chyfandaliad o 0-5 | 974 | 919 | 10 | 0 |
| Alan Morris | 50-55 | 5-10 | 947 | 817 | 87 | 0 |
| Steven O'Donoghue | 30-35 | 0-5 | 371 | 329 | 23 | 0 |
| Kevin Thomas | 45-50 | 0-5 | 644 | 572 | 39 | 0 |
| Mike Usher | 35-40 yn ogystal â chyfandaliad o 105-110 | 0-5 yn ogystal â chyfandaliad o 0-5 | 593 | 556 | 7 | 0 |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn aelodau o un o bedwar cynllun buddiannau diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a thelir costau'r buddiannau gan arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth ynglŷn â'r cynnydd mewn pensiynau. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyflogeion yn talu cyfraniadau sy'n gysylltiedig â chyflog ac sy'n amrywio rhwng 1.5% a 6.85% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a rhwng 3.5% ac 8.85% ar gyfer y cynlluniau premium, classic plus a nuvos. Mae buddiannau yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth yn y cynllun premium. Yn wahanol i'r cynllun classic, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun classic plus yn gynllun hybrid a chaiff buddiannau mewn

perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 eu cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a chaiff buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 eu cyfrifo fel y cynllun premium. Bydd aelod o gynllun nuvos yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Bydd y cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn rhoi swm cyfatebol hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Chwe deg oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus a 65 oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan
www.civilservicepensionscheme.org.uk

Caiff trefniadau newydd ar gyfer Pensiwn Cyfartalog Gyrfa eu cyflwyno o 1af Ebrill 2015 a bydd y rhan fwyaf o aelodau cynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn ymuno â'r cynllun newydd. Mae rhagor o fanylion am y cynllun newydd hwn ar gael ar y wefan.

## Gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

Y CETV yw gwerth y buddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi'u cyfalafu'n actiwaraidd. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn drwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod ar ôl iddo brynu buddiannau pensiwn ychwanegol gyda'i arian ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd gwirioneddol mewn gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cydnabyddiaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth neu'r lwfans am eu rôl, gall aelodau'r Bwrdd hawlio am eu costau teithio a threuliau. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Setliad TWE gyda CThEM. Dangosir gwerth y treuliau hyn, gan gynnwys treth, yn y tabl canlynol.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru na'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Bwrdd. Datgelir eu cydnabyddiaeth fel aelodau o'r Pwyllgor Rheoli uchod.

Y ffigurau ar gyfer 2013-14 yw cyfansymiau o'r dyddiad penodi ym mis Hydref 2013 hyd at 31 Mawrth 2014.

| | **Cydnabyddiaeth/ Lwfans** | | **Treuliau, gan gynnwys treth** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2014-15** | **2013-14** | **2014-15** | **2013-14** | **2014-15** | **2013-14** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Steven Burnett | 12,500 | 5,746 | 3,031 | 2,838 | 15,531 | 8,584 |
| David Corner | 12,500 | 5,746 | 9,643 | 3,029 | 22,143 | 8,775 |
| Lindsay Foyster[2] | 537 | - | 112 | - | 649 | - |
| Isobel Garner (Cadeirydd)[1] | 25,000 | 13,508 | 8,108 | 1,571 | 33,108 | 15,079 |
| Christine Hayes[2] | 7,882 | 5,746 | 1,818 | 1,504 | 9,700 | 7,250 |
| Peter Price | 12,500 | 5,746 | 1,304 | 166 | 13,804 | 5,912 |
| Amanda Hughes[3] | 3,573 | - | 378 | - | 3,951 | - |
| Louise Fleet[3] | 3,573 | - | 693 | - | 4,266 | - |
| **Cyfanswm** | **78,065** | **36,492** | **25,087** | **9,108** | **103,152** | **45,600** |

1 Mae Isobel Garner, fel Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, yn cael ei thalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid yw'n cael unrhyw gydnabyddiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru heblaw am gostau teithio a threuliau. Dangoswyd ei chydnabyddiaeth er mwyn bod yn fwy tryloyw.

2 Ymddiswyddodd Christine Hayes o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar 18fed Tachwedd 2014 a phenodwyd Lindsay Foyster yn ei lle ar 16 Mawrth 2015.

3 Mae Amanda Hughes a Louise Fleet yn aelodau sy'n gyflogeion o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u penodwyd gan yr aelodau anweithredol ym mis Mai 2014 ar ôl pleidlais gan y staff. Mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â'u dyletswyddau fel aelodau o'r bwrdd yn unig.

.

## Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol pwyllgorau


Mae'r tabl canlynol yn nodi cydnabyddiaeth a threuliau aelodau anweithredol pwyllgorau Swyddfa Archwilio Cymru cyn sefydlu'r Bwrdd ynghyd â'r aelod anweithredol a benodwyd o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Gall aelodau anweithredol pwyllgorau wneud cais am eu costau teithio a'u treuliau. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Setliad TWE gyda CThEM. Dangosir gwerth y treuliau hyn, gan gynnwys treth, yn y tabl canlynol.

| | Cydnabyddiaeth | | Treuliau, gan gynnwys treth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Rosamund Blomfield-Smith | - | 7,000 | - | 2,518 | - | 9,518 |
| Dr Michael P Brooker | - | 7,000 | - | 331 | - | 7,331 |
| Steven Burnett[1] | - | 2,681 | - | - | - | 2,681 |
| Mary Champion | - | 3,750 | - | 340 | - | 4,090 |
| Alison Gerrard[2] | 2,500 | - | 107 | - | 2,607 | - |
| Christine Hayes[1] | - | 2,681 | - | - | - | 2,681 |
| Dr Elizabeth Haywood | - | 5,000 | - | - | - | 5,000 |
| Michael Heap | - | 5,000 | - | - | - | 5,000 |
| Peter Laing | - | - | - | 572 | - | 572 |
| Gilbert Lloyd[3] | 3,625 | 7,250 | - | - | 3,625 | 7,250 |
| Denver Lynn | - | - | - | 3,947 | - | 3,947 |
| Dr Arun Midha | - | 3,750 | - | - | - | 3,750 |
| Deep Sagar | - | 14,176 | | 2,477 | - | 16,653 |
| Y Canon David Stanton | - | 5,000 | 170 | 1,383 | 170 | 6,383 |
| Haydn Warman | - | 3,750 | - | - | - | 3,750 |
| **Cyfanswm** | **6,125** | **67,038** | **277** | **11,568** | **6,402** | **78,606** |

1 Roedd Mr Burnett a Mrs Hayes yn aelodau o bwyllgorau anweithredol cyn eu penodi i Fwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref 2013.

2 Penodwyd Mrs Gerrard yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 1 Hydref 2014.

3 Roedd Mr Lloyd yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hyd at fis Medi 2014



**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
10 Mehefin 2015

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Cafwyd cyfarwyddyd newydd yn dilyn Deddf 2013 a bydd yn gymwys o 2014-15 ymlaen.

Mae'n rhaid i'r Datganiad Cyfrifon roi darlun cywir a theg o:

**a** sefyllfa materion Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a

**b** incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gwneud y canlynol yn benodol:

**a** cynnwys datganiad am alldro adnoddau net, alldro cyfalaf net a gofyniad arian parod net o'u cymharu â'r amcangyfrifon a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol [ac unrhyw nodiadau ategol angenrheidiol];

**b** cynnwys datganiad am y newid yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol;

**c** mewn perthynas â'r arian a ddarparwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, datgelu unrhyw wariant perthnasol sy'n anghyson a'r dibenion a fwriadwyd gan y Cynulliad;

**ch** mewn perthynas â'r adnoddau a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, datgelu unrhyw ddefnydd perthnasol o adnoddau sy'n anghyson â'r dibenion yr awdurdododd y Cynulliad i'w defnyddio ar eu cyfer; a

**d** datgelu unrhyw drafodion perthnasol sy'n anghyson â'r awdurdod perthnasol.

Yn unol â'r Memorandwm i'r Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu:

- Sicrhau bod rheoli ariannol o safon uchel yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau ariannol a'i gweithdrefnau yn hyrwyddo cynnal ei busnes mewn ffordd effeithlon a darbodus a dioeglu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol;
- Sicrhau y caiff arian ei gymhwyso i'r graddau ac at y diben a awdurdodir gan y Senedd a'r Cynulliad yn unig;
- Sicrhau y caiff yr adnoddau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol amdanynt eu rheoli'n briodol ac yn dda a'u diogelu;
- Rhoi cyngor i Swyddfa Archwilio Cymru ar bob mater o briodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn rhoi adroddiad ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac achosion o ansicrwydd a wynebwn.

Fel Swyddog Cyfrifyddu a chan weithio gyda Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n rhaid i mi allu rhoi sicrwydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig a'r cyhoedd ynglŷn â safonau uchel uniondeb wrth reoli arian cyhoeddus mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheoli ariannol Swyddfa Archwilio Cymru.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn ac ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid i mi geisio sicrhau:

- bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol gadarn, er mwyn ategu'r broses o arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a
- bod Swyddfa Archwilio Cymru, wrth reoli cyfleoedd a risgiau, yn sicrhau'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Disgrifir cwmpas llawn fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu yn y Memorandwm i Swyddfa Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2014 gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yr wyf yn atebol iddo yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu.

## Llywodraethu corfforaethol

### Y fframwaith llywodraethu

Ceir crynodeb o strwythur llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau, yn yr arddangosyn canlynol.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Mae'r Pwyllgor Rheoli a Chyfarwyddwyr eraill hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd fel Uwch Dîm Arwain ehangach. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, a'r Pwyllgor Rheoli, yn cael eu cynorthwyo gan Ysgrifennydd Bwrdd.

### Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol

Craffu ar y modd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio adnoddau
Mae hefyd yn gyfrifol am benodi aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â'r archwilydd allanol

### Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Monitro'r modd y ceir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu harfer

Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol

Cyflogi staff a darparu adnoddau er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Codi ffioedd am waith a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, mae'n paratoi amcangyfrif o incwm a threuliau, cynllun blynyddol, adroddiad(au) interim ac adroddiad blynyddol

### Pwyllgor Tâl

Cynghori'r Bwrdd ynghylch a yw'r trefniadau o ran tâl yn:

a cefnogi ei amcanion strategol;

b galluogi proses effeithlon, effeithiol ac economaidd o gynnal busnes; ac

c yn cydymffurfio ag anghenion rheoleiddiol

### Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cynghori'r Bwrdd ynghylch a yw'r trefniadau archwilio a sicrwydd risg yn:

a cefnogi ei amcanion strategol;

b galluogi proses effeithlon, effeithiol ac economaidd o gynnal busnes; ac

c yn cydymffurfio ag anghenion rheoleiddiol

### Pwyllgor Rheoli

Darparu rheolaeth a llywodraethiant gweithredol wrth weithredu a chyflwyno gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff ei gadeirio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

## Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

Ar 4 Gorffennaf 2013, cychwynnwyd darpariaethau penodol o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 drwy orchymyn, gan gynnwys y rhai a wnaeth y canlynol:

- sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol; a
- phenodi'r Archwilydd Cyffredinol yn aelod o'r Bwrdd ac yn Brif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru.

Drwy hyn caniatawyd i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi pum aelod anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru; proses a gwblhawyd ganddo ar 17 Hydref 2013.

Roedd y penodiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar gyfer cychwyn darpariaethau Deddf 2013 yn llawn o 1 Ebrill 2014 pan ddaeth yn gyflogwr staff ac yn ddeiliad yr holl adnoddau eraill, ymhlith cyfrifoldebau eraill.

Yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd ar 23 Hydref 2013, cytunodd i sefydlu dau bwyllgor – ar gyfer Archwilio a Sicrhau Risg a Chydnabyddiaeth.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 23 Ebrill 2014[3], ar ôl cychwyn darpariaethau Deddf 2013 yn llawn, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Kevin Thomas, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, gael ei benodi i'r Bwrdd gan aelodau anweithredol[4]. Derbyniodd yr aelodau anweithredol argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae Deddf 2013 hefyd yn rhagnodi bod yn rhaid i'r aelodau eraill o'r Bwrdd gael eu penodi ar ôl pleidlais gan y staff. Comisiynwyd y Gwasanaethau Diwygio Etholiadol gan Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal pleidlais ar ddechrau 2014-15, gan ddefnyddio dull y bleidlais drosglwyddadwy unigol. Cafodd y Bwrdd ei hysbysu gan y Swyddog Etholiadau, Peter Price, yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2014[5] fod Amanda Hughes a Louise Fleet wedi cael eu hethol ar ôl pleidlais gan y staff[6]. Cynigiodd y dylid eu penodi'n aelodau sy'n gyflogeion o'r Bwrdd. Fe'u penodwyd i'r Bwrdd gan yr aelodau anweithredol yn unol â chanlyniad y bleidlais.

Gwnaeth y Swyddog Etholiadau hefyd adolygu rheolau'r etholiad ac effeithiolrwydd y trefniadau ar oedd ar waith i'w weinyddu. Cyflwynodd ei gasgliad i'r Bwrdd, sef er bod lle i wella, fod y Bwrdd wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i gynnal yr etholiad a bod y trefniadau hynny wedi gweithio'n dda yn ymarferol. Roedd nifer yr ymgeiswyr a oedd yn barod i sefyll yn fwy na'r disgwyl ar y dechrau ac awgrymodd y gyfradd bleidleisio o 83 y cant fod cryn ddiddordeb ymhlith y staff, sy'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Felly, mae'r Bwrdd llawn o naw aelod, fel y'i pennwyd gan Ddeddf 2013, yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod a benodwyd sy'n gyflogai a dau aelod etholedig sy'n gyflogeion.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys pum aelod anweithredol y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac aelod annibynnol.

3 Cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn 2014-15

4 O dan Atodlen 1 i Ddeddf 2013

5 Ail gyfarfod y Bwrdd yn 2014-15

6 Unwaith eto o dan Atodlen 1 i Ddeddf 2013

Wrth gynnal ei waith, mae'r Bwrdd yn cymhwyso Cynllun Dirprwyo ffurfiol, cylch gorchwyl sy'n ymgorffori ei reolau gweithdrefnol, Cod Ymddygiad i Aelodau a Chod Ymarfer sy'n Llywodraethu'r Berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy'r canlynol:

- adroddiadau rheoli mewnol;
- adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth; ac
- adroddiadau archwilio allanol.

Mae'r lefel o sicrwydd a geisir ac a roddir yn gymesur â'r lefelau risg cysylltiedig.

Yn 2014-15, cymeradwyodd y Bwrdd, ymhlith busnes arall, gynllun ffioedd diwygiedig ar gyfer 2014, amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer 2015-16, adroddiad interim ar gynnydd a wnaed yn erbyn cynllun blynyddol 2014-15, cynllun ffioedd ar gyfer 2015 a chynllun blynyddol ar gyfer 2015-16. Gosodwyd y dogfennau hyn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chraffwyd arnynt gan y Pwyllgor Cyllid. Ystyriodd y Bwrdd y dogfennau hyn yng nghyd-destun strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-16, sy'n parhau'n berthnasol o dan y trefniadau llywodraethu newydd.

Ar gyfer aelodau anweithredol, cynhaliodd Ysgrifennydd y Bwrdd gofrestr o fuddiannau, a ddiweddarwyd yn ystod y flwyddyn i gofnodi unrhyw wybodaeth ychwanegol o ddatganiadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau. Drwy hyn sicrhawyd i unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau gael eu nodi cyn cyfarfodydd lle y bo'n ymarferol a chymerwyd camau priodol i'w lliniaru. Yn amodol ar eithriadau cymwys, mae hon ar gael ar gais drwy anfon e-bost i post@archwilio.cymru

Mae gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei phwyllgorau hawl mynediad, a gallant hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn uniongyrchol am unrhyw faterion sy'n achos pryder.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol a'r archwilydd allanol yn parhau i gael mynediad agored a chyfrinachol at y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, gan gynnwys drwy sesiwn breifat ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol i'r graddau yr oedd ei ofynion yn berthnasol ac yn ymarferol. Ni chydymffurfiodd y trefniadau â gofynion y Cod mewn perthynas ag aelodaeth y bwrdd gan y byddai cynnwys cynrychiolaeth weinidogol a swyddogion y llywodraeth wedi peryglu fy annibyniaeth fel Archwilydd Cyffredinol.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn 2014-15

| | Y Bwrdd | PASR | PC | PRh |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd | 8 | 3 | 3 | 15 |
| **Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau** | | | | |
| Isobel Garner – Cadeirydd Anweithredol | 8 | | 3 | |
| Steve Burnett – Aelod Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol | 7 | | 2 | |
| David Corner – Aelod Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) | 8 | 3 | 3 | |
| Peter Price – Aelod Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth (PC) | 8 | | 3 | |
| Christine Hayes – Aelod Anweithredol[1] | 4 | 1 | 1 | |
| Lindsay Foyster – Aelod Anweithredol | 1 | | 1 | |
| Huw Vaughan Thomas – Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu[2] | 8 | 3 | 3 | 13 |
| Kevin Thomas – Aelod Penodedig sy'n Gyflogai a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol[3] | 8 | 3 | | 14 |
| Amanda Hughes – Aelod Etholedig sy'n Gyflogai | 6 | | | |
| Louise Fleet – Aelod Etholedig sy'n Gyflogai | 7 | 2 | | |
| Gilbert Lloyd – Aelod Anweithredol Annibynnol PASR[4] | | 1 | | |
| Alison Gerrard – Aelod Anweithredol Annibynnol PASR | | 2 | | |
| **Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli (PRh) nad ydynt yn aelodau'r Bwrdd**[5] | | | | |
| Anthony Barrett | 3 | 1 | | 12 |
| Gillian Body | 4 | 1 | | 15 |
| Mike Usher | 1 | | | 14 |
| Alan Morris | 1 | | | 12 |
| Steve O'Donoghue | 7 | 3 | 3 | 11 |

1 Ymddiswyddodd Christine Hayes, a oedd hefyd yn aelod o'r PASR, o'r Bwrdd am resymau personol ym mis Tachwedd 2014; ym mis Mawrth 2015, penododd y Cynulliad Cenedlaethol aelod anweithredol newydd, Lindsay Foyster, a benodwyd gan y Bwrdd i fod yn aelod o PASR yn ystod yr un mis.

2 Bu Huw Vaughan Thomas yn bresennol yng nghyfarfodydd PASR a PC yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

3 Bu Kevin Thomas yn bresennol yng nghyfarfodydd PASR yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

4 Parhaodd cyn-Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yr Archwilydd Cyffredinol, Gilbert Lloyd, i wasanaethu am chwe mis er mwyn sicrhau rhywfaint o barhad cyn cwblhau'r archwiliad o adroddiad blynyddol a chyfrifon 2013-14 yr Archwilydd Cyffredinol. Ar ôl ymarfer recriwtio agored, penododd y Bwrdd aelod annibynnol newydd, Alison Gerrard, ym mis Hydref 2014.

5 Bu aelodau o'r Pwyllgor Rheoli yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, PASR a PC yn ôl yr angen i friffio neu dderbyn eu cyngor.

## Adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn 2014-15 comisiynodd y Bwrdd gymorth allanol ar gyfer adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd sy'n cael ei gynnal mewn dau gam. Ym mis Mawrth 2015 cafodd y Bwrdd yr adroddiad interim ar y cam cyntaf - ymarfer meincnodi a ganolbwyntiodd ar dasgau a rolau, rhyngweithio a chyfraniadau unigol. Helpodd yr adroddiad hwnnw i lywio sesiwn ddatblygu ym mis Mai 2015.

Yn ddiweddarach yn 2015-16, bydd cam dau o'r prosiect yn darparu adroddiad asesu a fydd yn amlinellu cryfderau, meysydd i'w datblygu, cyfeiriad, ac yn argymell camau gweithredu a gweithgarwch er mwyn gwella perfformiad. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y canlyniadau yn adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16.

Hefyd yn ystod y flwyddyn:

- parhaodd y Bwrdd â'i gonfensiwn o gynnal sesiynau briffio anffurfiol cyn cyfarfodydd fel ffordd effeithiol o wella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau o agweddau penodol ar y busnes a thrwy hynny wella effeithiolrwydd y Bwrdd;
- cymerodd y Bwrdd ran mewn dwy sesiwn ddatblygu a hwyluswyd yn allanol, gan gynnwys gyda'r Uwch Dîm Arwain, gyda'r nod o atgyfnerthu cydberthnasau gwaith, meithrin dealltwriaeth o briod rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau ei gilydd, a helpu i lunio ein strategaeth yn y tymor hwy;
- cwblhaodd y Cadeirydd adolygiadau un i un o bob aelod o'r Bwrdd lle y trafododd eu cyfraniadau unigol gyda hwy; a
- chwblhaodd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol arfarniad o berfformiad y Cadeirydd a phennodd amcanion ar gyfer 2015-16.

Ym mis Mai 2014, parhaodd y Bwrdd i fynegi rhai pryderon ynglŷn ag ansawdd gwybodaeth reoli a'r ffaith nad oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru gynllun busnes cymeradwy â mesurau perfformiad a thargedau cadarn y gallai fonitro cynnydd yn eu herbyn. Ym mis Hydref 2014, lansiodd y rheolwyr gweithredol, ar sail cynllun peilot mewnol, gynllun busnes tair blynedd drafft. Ar ôl cyfnod o ymgynghori a datblygiad ymhellach, cymeradwywyd fersiwn terfynol o'r cynllun busnes, gan gynnwys mesurau perfformiad a thargedau cysylltiedig y cytunwyd arnynt, gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2015. Cafodd y cynllun busnes ei ymgorffori yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16 a gafodd ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Parhaodd Swyddfa Archwilio Cymru i fireinio ei chylch busnes er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd rheolwyr gweithredol, pwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd wedi'u trefnu'n fwy priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae hon yn broses sy'n parhau ac mae'n cydnabod bod angen cydbwyso agendâu arfaethedig â'r hyblygrwydd i gyfrif am faterion sy'n codi ar fyr rybudd.

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2015, a oedd yn crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaeth yn ystod 2014-15.

O ran risg, nododd y Pwyllgor fod tair eitem o fusnes wedi gofyn am sylw penodol yn 2014-15.

- datblygu trefniadau rheoli risg newydd;
- rhoi trefniadau cofnodi mewn amser real ar waith; a
- phenodi aelod o'r Bwrdd sy'n gyflogai a etholwyd i'r Pwyllgor.

Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn fodlon, ar ôl ystyried barn archwilio fewnol ac allanol, ei fod wedi cwblhau gwaith digonol i roi sicrwydd bod systemau Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth effeithiol.

## Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cyflwynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mai 2015. Nododd y Pwyllgor fod ei fusnes yn 2014-15 yn ymatebol i raddau helaeth, gan ymdrin â materion penodol a ddygwyd i'w sylw gan reolwyr yn hytrach na materion yn deillio o raglen waith a gynlluniwyd ymlaen llaw.

O ran risg, nododd y Pwyllgor fod tair eitem o fusnes wedi gofyn am sylw penodol:

- cystadleurwydd ystod band cyflog benodol, a'r goblygiadau o ran recriwtio a chadw staff archwilio ariannol;
- rheoli absenoldeb oherwydd salwch, gan gynnwys hawl staff i dâl salwch a sgrinio iechyd; ac
- adolygiad o lwfansau trafnidiaeth a'r cynllun prydlesu ceir presennol.

Yn 2015-16, mae'r Pwyllgor yn bwriadu datblygu blaenraglen waith a fydd yn rhoi sicrwydd mwy cynhwysfawr i'r Bwrdd ynglŷn â materion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

## Adroddiadau’r archwilydd mewnol

Penodwyd BDO LLP yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar ôl ymarfer tendro a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2014. Paratowyd cynllun archwilio mewnol i’w ystyried ac fe’i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2014.

Yn ystod 2014-15, cyhoeddwyd saith adroddiad archwilio mewnol gan BDO LLP ar adolygiadau o’r canlynol: y gyflogres, rheolaethau ariannol (dros dro a therfynol), cofnodi mewn amser real, rheolaethau twyll a chynllunio busnes.

### Crynodeb o’r lefelau o sicrwydd a roddwyd ym marn adrodd archwilio mewnol yn 2014-15

| Cynllun y fframwaith rheolaeth fewnol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Sylweddol | | | 1 | 4 |
| | Cymedrol | | | 1 | 1 |
| | Cyfyngedig | | | | |
| | Dim | | | | |
| | Lefel sicrwydd | Dim | Cyfyngedig | Cymedrol | Sylweddol |
| | | Effeithiolrwydd gweithredol rheolaethau mewnol | | | |

Yn ei ddatganiad blynyddol o sicrwydd ar gyfer 2014-15 nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol y canlynol:

‘Fel darparwr gwasanaethau archwilio mewnol Swyddfa Archwilio Cymru, mae’n ofynnol i ni roi barn i’r Bwrdd ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol, sy’n cefnogi datganiad Llywodraethu’r sefydliad ei hun.

‘Wrth roi ein barn, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt. Mae’r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd rhesymol i Swyddfa Archwilio Cymru nad oes unrhyw wendidau mawr yn y system rheolaeth fewnol ar gyfer y meysydd a adolygwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015. Felly, nid yw’r datganiad o sicrwydd yn warant bod pob agwedd ar y system rheolaeth fewnol yn ddigonol ac yn effeithiol. Dylai’r datganiad o sicrwydd gadarnhau, yn seiliedig ar dystiolaeth o’r archwiliadau a gynhaliwyd, nad oes unrhyw arwyddion o wendidau perthnasol yn y fframwaith rheoli.

‘Wrth asesu’r lefel o sicrwydd i’w roi, rydym wedi ystyried y canlynol:

- pob archwiliad mewnol a gynhaliwyd gan BDO LLP yn ystod 2014-15;
- camau gweithredu dilynol y cadarnhawyd iddynt gael eu cymryd mewn perthynas ag archwiliadau o gyfnodau blaenorol;
- p’un a oes unrhyw argymhellion sylweddol nad yw’r rheolwyr wedi’u derbyn a’r risgiau canlyniadol;
- effaith unrhyw newidiadau sylweddol i amcanion neu systemau Swyddfa Archwilio Cymru;
- gofynion Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus; ac
- unrhyw gyfyngiadau a roddwyd ar gwmpas gwaith archwilio mewnol.

‘Rydym yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi cael ei wneud i’n galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol Swyddfa Archwilio Cymru.

‘Yn ein barn ni, yn seiliedig ar yr adolygiadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, rydym yn gallu dod i’r casgliad bod trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn gweithredu’n ddigon effeithiol i roi sicrwydd rhesymol bod yr amcanion rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu cysylltiedig yn cael eu cyflawni’n gyffredinol erbyn diwedd y cyfnod dan sylw.’

# Rheoli risg

O gofio natur ein busnes, nid ydym yn goddef lefel uchel o risg o ran barn archwilio broffesiynol, rheoleidd-dra a phriodoldeb, na rheoli ariannol. Mewn meysydd eraill, megis cyfnewid arfer da ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, rydym yn barod i dderbyn mwy o risg er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gyflawni ein nod a'n hamcanion.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i fabwysiadu arfer gorau o ran nodi risgiau, eu gwerthuso a'u rheoli'n gost-effeithiol er mwyn sicrhau y cânt eu lleihau i lefel dderbyniol neu eu dileu. Cydnabyddir y bydd rhai risgiau yn bodoli o hyd ac na chânt eu dileu byth – ond mae'n rhaid i'r rhain gael eu monitro a'u rheoli.

## Fframwaith rheoli risg

Y Bwrdd sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli risg, ac mae'n cael ac yn ystyried cofrestr o risgiau strategol ym mhob un o'i gyfarfodydd.

Cynorthwyir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sy'n cynghori'r Bwrdd ar y canlynol:

- ei strategaeth risg, gan gynnwys priodoldeb y ffordd y mae'r sefydliad yn pennu ei awydd i fentro;
- a yw'r swyddogaeth rheoli risg yn cyflawni ei rôl yn unol â safonau proffesiynol perthnasol;
- effeithiolrwydd y prosesau o nodi ac asesu risg sy'n llywio penderfyniadau gweithredol; ac
- ymatebolrwydd rheolwyr i asesiadau risg.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am reoli risg o ddydd i ddydd, ac mae'n cynnal cofrestr risg sy'n cynnwys risgiau strategol a gweithredol a nodwyd a allai effeithio ar gyflawni nod ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae cofrestr risg gryno, sy'n nodi unrhyw newidiadau sylweddol i'r proffil risg, yn eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli. Adolygodd y Pwyllgor Rheoli y gofrestr risg lawn bob chwarter yn 2014-15, cyn iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system o reolaeth fewnol, ac fe'i cynorthwyir i wneud hynny gan y Pwyllgor Rheoli.

## Adroddiad ar reoli risg

Ar ddechrau 2014-15 cwblhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol ei adolygiad o drefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru. Nod yr adolygiad oedd cadarnhau i ba raddau roedd y trefniadau yn unol ag arfer gorau ac i ba raddau roedd rheoli risg wedi'i ymgorffori drwy'r sefydliad cyfan.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad, er bod nifer o nodweddion cadarn o fewn y model rheoli risg cyffredinol, fod angen atgyfnerthu trefniadau rheoli risg mewn sawl maes, a sicrhau bod ymwybyddiaeth o risgiau a pherchenogaeth ohonynt yn cael eu hymgorffori'n well drwy'r sefydliad cyfan.

Defnyddiwyd adroddiad Archwilio Mewnol i lywio rhaglen waith a gynhaliwyd yn 2014-15 i wella trefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru. Cytunodd y Bwrdd ar ddatganiad strategol am risg yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2014, a chymeradwyodd gynllun i ddatblygu trefniadau rheoli risg gwell i'w lansio'n ffurfiol ar 1 Ebrill 2015. Camau allweddol y prosiect oedd:

- datblygu fframwaith rheoli risg newydd;
- ailgynllunio'r gofrestr risg er mwyn sicrhau bod risgiau wedi'u mynegi'n glir a bod rheolaethau a chamau gweithredu lliniaru clir yn eu cylch;
- cynnwys yn y gofrestr risg statws risg gros (cynhenid) a net (gweddilliol), er mwyn gwneud y risgiau eu hunain yn fwy eglur ond hefyd y rheolaethau a chamau gweithredu lliniaru;
- datblygu proses glir o uwchgyfeirio risgiau at y gofrestr risg strategol;
- adolygu trefniadau adrodd ar bob lefel er mwyn sicrhau y gall rheoli risg lywio a galluogi prosesau gwneud penderfyniadau'n effeithiol; a
- sicrhau bod y fframwaith risg a'r prosesau cysylltiedig wedi'u hymgorffori'n llawn mewn prosesau rheoli.

Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y broses o gyflawni'r prosiect er mwyn sicrhau perchenogaeth a bod unrhyw bryderon ac ymholiadau yn cael eu cofnodi ac yr ymdrinnir â hwy. Cytunwyd ar y trefniadau rheoli risg newydd mewn egwyddor gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2015, a chawsant eu gweithredu ochr yn ochr â'r trefniadau rheoli risg presennol ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol er mwyn profi eu heffeithiolrwydd gweithredol. Lansiwyd y trefniadau newydd yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2015.

## Proffil risg strategol Swyddfa Archwilio Cymru

Cafodd proffil risg Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio yn ystod 2014-15 fel rhan o'r prosiect ehangach i wella trefniadau rheoli risg. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu nifer o risgiau strategol allweddol a amrywiodd yn ystod y flwyddyn ac a oedd wedi mynd â chryn dipyn o amser y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli:

- Mae archwilio ariannol wedi gweld prinder adnoddau sylweddol a mynych drwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i drosiant staff ac anawsterau recriwtio. Mewn ymateb, adolygwyd pecyn cyflog archwilwyr, rhoddwyd cynnig ar ddulliau newydd o recriwtio a chyflymwyd y broses o benodi archwilwyr dan hyfforddiant. Mae'r Bwrdd yn parhau i oruchwylio'r risg hon yng ngoleuni pryderon o hyd y caiff rhai terfynau amser archwilio eu colli yn y dyfodol.
- Rydym yn parhau i weithio gyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn goresgyn cymhlethdod a lleihau risg yn ein trefniadau codi ffioedd. Mae Adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol na all y ffi a godir am bob darn unigol o waith archwilio mewn corff a archwilir fynd y tu hwnt i gost lawn y gwaith hwnnw. Gall y gofyniad hwn arwain at sefyllfa lle mae'n rhaid i ni ad-dalu costau am un darn o waith tra'n paratoi anfonebau ychwanegol am ddarn arall, a'r cyfan ar gyfer yr un corff a archwilir. Rydym yn ceisio mân newid deddfwriaethol sy'n ei gwneud yn bosibl i raddfeydd ffioedd a symiau ffioedd gael eu pennu ar lefel briodol i gorff penodol yn gyffredinol.
- Y llynedd, cymeradwyodd y Bwrdd brosiect i gyflwyno system newydd yn lle ein hen system rheoli archwilio ariannol a chofnodion. Roedd y prosiect yn mynd rhagddo ar ddiwedd blwyddyn 2014-15 a, hyd yma, mae wedi parhau ar y trywydd cywir ac o fewn y gyllideb. Fodd bynnag, oherwydd yr anawsterau o ran adnoddau a grybwyllwyd yn flaenorol, erys risg o hyd y gallai hynny effeithio ar y broses o'i roi ar waith yn ystod cyfnod pan fo'r llwyth gwaith yn drwm, a thrwy hynny effeithio ar barhad busnes o bosibl.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu heriau tebyg i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus o ran sicrhau sefydliad cynaliadwy sy'n cynnig gwerth da am arian. Caiff yr heriau hyn eu dwysáu gan nifer o ffactorau, gan gynnwys:
  - Dirywiad wedi'i reoli yn ein gwaith ardystio grantiau a gomisiynwyd, sy'n deillio o benderfyniad Llywodraeth Cymru y bydd rhaglen archwilio 2014-20 yr UE yn cael ei chyflawni'n gyfan gwbl yn fewnol, ac adolygiad parhaus o'i defnydd o archwilwyr allanol i ardystio grantiau.
  - Gorfod cynyddu rhai ffioedd archwilio er mwyn cydymffurfio â'r sail ddiwygiedig dros bennu ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio a gyflwynwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac oherwydd dyfarniad gan CThEM ynglŷn â'n statws TAW.
  - Cynnydd yn y galw arnom i ymgymryd â gwaith archwilio a gomisiynwyd.
  - Ceisio newidiadau trawsnewidiol i leihau ein sylfaen costau tra'n cydnabod bod 70 y cant o'n costau'n ymwneud â staffio.

Rwy'n fodlon bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

At hynny, cafodd nifer o risgiau eu rheoli'n llwyddiannus a'u dileu o'r gofrestr risg yn ystod 2014-15, gan gynnwys.

- Y risg o ddiffyg diddordeb ymhlith cwmnïau yn ein contractau cyflenwi. Llwyddwyd i liniaru'r risg hon a dyfarnwyd contractau cyflenwi newydd yn 2014-15 sy'n rhoi gwell gwerth am arian a mwy o hyblygrwydd o ran adnoddau er mwyn cefnogi gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.
- Y risg o densiynau cychwynnol rhwng natur goruchwylio a gweithredol swyddogaethau'r Bwrdd newydd fel y gallai annibyniaeth archwilio'r Archwilydd Cyffredinol gael ei pheryglu. Aed i'r afael â'r risg hon drwy roi ein trefniadau llywodraethu newydd ar waith yn llwyddiannus, wedi'u cefnogi gan God Ymarfer sy'n Llywodraethu Cydberthnasau a gwaith parhaus gan y Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol i liniaru'r risg honno.
- Y risg o oedi wrth gyflawni'r rhaglen archwilio mewnol. Mae Archwilio Mewnol wedi cael ei osod yn llwyddiannus ar gontract allanol er mwyn rhoi gwell gwerth am arian, a sicrwydd mwy dibynadwy ynglŷn â gweithrediad ein fframwaith rheolaeth fewnol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu nifer o risgiau sydd newydd eu nodi yn 2015-16, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein cofrestr risg strategol, gan gynnwys:

- y risg na fydd gan Swyddfa Archwilio Cymru ddigon o adnoddau, gallu na hyblygrwydd i fodloni gofynion yr amgylchedd archwilio sy'n newid yn gyflym (gan gynnwys yr angen i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynt a'r dirywiad yn ein gwaith ardystio grantiau a gomisiynwyd); ac
- y risg y bydd diwygiadau gwasanaeth cyhoeddus a chyfansoddiadol yn arwain at newidiadau sylweddol i lwyth ein gwaith archwilio a'i natur.

Rydym wedi comisiynu gwaith i wella ein trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu er mwyn lliniaru'r risgiau newydd hyn.

Byddaf yn parhau i sicrhau y caiff risgiau eu rheoli'n dda yn gyffredinol, a lle ceir gwendidau, y caiff camau priodol eu cymryd i fynd i'r afael â hwy, ac y caiff rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol.

## Llywodraethu gwybodaeth

Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gennyf fynediad breintiedig ac eang i ddata a gwybodaeth er mwyn helpu i gyflawni fy swyddogaethau archwilio a sicrhau bod fy adroddiadau'n ffeithiol, yn gywir ac yn gyflawn. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd i barchu'r mynediad breintiedig hwn a sicrhau bod y wybodaeth bersonol a sensitif a roddir iddi yn cael ei diogelu'n briodol.

I gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Diogelwch Gwybodaeth, sydd:

- yn nodi rhwymedigaethau pob cyflogai mewn perthynas â defnyddio cyfleusterau TGCh Swyddfa Archwilio Cymru;
- yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer prosesu data;
- yn tynnu sylw at brif gyfrifoldebau staff o ran diogelwch;
- yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwaith monitro rheolaidd i gadarnhau bod staff yn cydymffurfio â'r gyfraith a pholisi Swyddfa Archwilio Cymru;
- yn nodi trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r polisi; ac
- yn egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth a chanllawiau a sut y dylid rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth. Ef oedd y Pwynt Cyswllt Unigol y mae'n rhaid iddo awdurdodi'r holl gynigion i swmp-drosglwyddo lefelau uchel o wybodaeth fwy sensitif rhwng Swyddfa Archwilio Cymru, cyrff archwiliedig a tharddwyr eraill.

Mae'r Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yn cynghori uwch reolwyr a staff ar faterion diogelwch technegol ac ymarferol, ac mae'n arwain unrhyw waith ymchwilio sydd ei angen.

Mae'r Swyddog Gwybodaeth yn gweithio i sicrhau bod prosesau llywodraethu gwybodaeth cyffredinol cadarn ar waith, gan gynnwys cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Y Swyddog Gwybodaeth yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, gan raddio ei threfniadau yn unol ag anghenion y sefydliad.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol y dylid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ohonynt yn 2014-15.

Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd rydym yn gweithredu fel busnes. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a gafodd ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. O dan y Cynllun rydym yn ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

Yn y flwyddyn ariannol 2014-15, daeth 44 o geisiadau am wybodaeth i law. Mewn dau achos, ni lwyddwyd i ymateb yn unol â'r terfyn amser statudol. Mewn un o'r achosion hyn cafodd y cais ei wneud yn ystod deialog parhaus ag Aelod Cynulliad, a threfnwyd cyfarfod i drafod materion cysylltiedig cyn i ni roi'r ymateb. Yn yr achos arall, roedd y cais wedi'i gynnwys mewn gohebiaeth a oedd yn ymwneud â gwaith archwilio, ac nid oedd yr archwilydd a oedd yn ymdrin â'r ohebiaeth wedi sylweddoli ar y dechrau bod angen ymdrin ag elfen yn unol â deddfwriaeth cyfraith gwybodaeth.

Nid oeddem yn destun unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2014-15.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2015

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad am Lefau Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf 2013. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad. Rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith i gael sicrwydd rhesymol yr aethpwyd i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben neu ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y mae wedi'i gyfeirio ato yn unig yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac nid at unrhyw ddiben arall. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallaf ddatgan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

## Priod gyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar dudalen 68, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am sicrhau yr aethpwyd i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei reoli ac nad yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben neu ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a mynegi barn arnynt. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr. Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn ynglŷn â sicrwydd rhesymol yr aethpwyd i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben neu ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Disgrifir cwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i ni gael tystiolaeth sy'n rhoi sicrwydd rhesymol yr aethpwyd i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben neu ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny. Rydym wedi cynnal ein gwaith yn unol â Nodyn Ymarfer 10 y Bwrdd Arferion Archwilio yn hyn o beth.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2015 ac o'i chost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn ein barn ni:

- aethpwyd i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu;
- nid yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben neu ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben neu'r dibenion hynny.

## Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM o roddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Baker Tilly UK Audit LLP
11 Mehefin 2015

Archwilwyr Cofrestredig
Davidson House
Forbury Square
Reading
RG1 3EU

# Prif ddatganiadau ariannol a nodiadau

## Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | | Amcangyfrif 2014-15 | | | Alldro 2014-15 | | | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcan-gyfrif | Alldro 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodyn | | Gwariant | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant | Incwm | Cyfanswm Net | | Cyfanswm Net |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| SORO1 | Refeniw | 23,315 | (17,639) | 5,676 | 22,412 | (17,119) | 5,293 | (383) | 4,865 |
| SORO1 | Cyfalaf | 298 | - | 298 | 289 | | 289 | (9) | 20 |
| | Cyfanswm Adnoddau | 23,613 | (17,639) | 5,974 | 22,701 | (17,119) | 5,582 | (392) | 4,885 |
| SORO2 | Gofyniad Arian Parod Net | | | 5,974 | | | 5,276 | (698) | 5,094 |

### Crynodeb o arian parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Yn sgil gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15, mae swm o £698,000 yn ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru.

# Nodiadau i'r Crynodeb o Alldro Adnoddau

## Nodyn SORO1: Dadansoddiad o alldro adnoddau net 2014-15

Mae'r nodyn hwn wedi'i gynnwys ar gyfer 2014-15 i gymharu'r alldro â'r Amcangyfrif ar gyfer 2014-15 ar yr un sail ag a ddefnyddiwyd i baratoi'r Amcangyfrif a chan adlewyrchu adroddiadau rheoli yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth ar gyfer 2013-14 yn seiliedig ar fformat y Cyfrifon ac felly nid oes modd ei chymharu'n uniongyrchol.

| | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif | Alldro |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Treuliau** | | | | |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff[1] | 16,230 | 15,693 | (537) | 15,722 |
| Costau swyddfa | 941 | 913 | (28) | 850 |
| Dysgu a datblygu | 407 | 408 | 1 | 144 |
| Costau TG | 601 | 426 | (175) | 574 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 5,136 | 4,972 | (164) | 7,038 |
| **Cyfanswm y treuliau** | **23,315** | **22,412** | **(903)** | **24,328** |
| | | | | |
| **Incwm** | | | | |
| Ffioedd archwilio ac arolygu | (16,169) | (16,108) | 61 | (16,606) |
| Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | (1,170) | (947) | 223 | (1,409) |
| Incwm arall | (300) | (64) | 236 | (27) |
| **Cyfanswm yr incwm** | **(17,639)** | **(17,119)** | **520** | **(18,042)** |
| | | | | |
| Adnodd refeniw net | 5,676 | 5,293 | (383) | 6,286 |
| | | | | |
| **Gwariant cyfalaf** | **298** | **289** | **(9)** | **20** |

1 Mae costau sy'n gysylltiedig â staff yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth a gynhwyswyd mewn costau eraill yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr ac nid ydynt yn cynnwys cost amser hyfforddiant ein hyfforddeion sydd wedi'i chynnwys o fewn Dysgu a Datblygu.

## Esboniad o amrywiannau

Mae'r gostyngiad mewn costau sy'n gysylltiedig â staff o gymharu â'r Amcangyfrif o ganlyniad i swyddi gwag yn ystod y flwyddyn gan adlewyrchu'r anawsterau recriwtio a wynebwyd, yn enwedig o ran archwilwyr ariannol.

Arweiniodd gofyniad is ynglŷn â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw at lai o wariant wedi'i gynllunio ar gostau swyddfeydd.

Roedd gwariant ar gyfarpar TG a meddalwedd newydd ynghyd â chostau ymgynghoriaeth cysylltiedig yn is na'r bwriad gwreiddiol.

Roedd y gyllideb cyflenwadau a gwasanaethau yn cynnwys symiau wrth gefn cyffredinol nad oedd eu hangen yn 2014-15.

Mae'r gostyngiad hwn mewn incwm ffioedd archwilio o gymharu â 2013-14 yn adlewyrchu gwaith ychwanegol a wnaed yn ystod 2013-14 a gostyngiad mewn ffioedd a dderbyniwyd ar gyfer gwaith ardystio grantiau yn 2014-15.

Roedd incwm o Raglen Cymru ar gyfer Gwella yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd lleihad yn y gwaith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr amcangyfrif o incwm arall yn cynnwys ffioedd a ddisgwyliwyd am waith 'wedi'i gomisiynu' yn ychwanegol at ein gwaith archwilio statudol. Mae'r ffioedd ar gyfer y gwaith hwn bellach wedi'u cynnwys yn y ffioedd archwilio ac arolygu.

## Nodyn SORO2: Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | 2014-15 Amcangyfrif £'000 | 2014-15 Alldro £'000 | 2013-14 Amrywiant £'000 | 2013-14 Alldro £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau refeniw | 5,676 | 5,293 | (383) | 4,865 |
| Adnoddau cyfalaf | 298 | 289 | (9) | 20 |
| **Addasiadau:** | | | | |
| Eitemau anariannol (dibrisiant) | | (177) | (177) | (97) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod | | (129) | (129) | 306 |
| **Cyfanswm y gofyniad arian parod net** | **5,974** | **5,276** | **(698)** | **5,094** |

Mae'r symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn y tabl uchod yn glir o'r symudiadau yn y symiau derbyniadwy (llai £164,000), y symiau sy'n daladwy (ynghyd â £136,000) a'r darpariaethau presennol (llai £101,000) fel y'u cynhwyswyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | 2014-15 £'000 | 2013-14 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | 4 | 15,406 | 15,291 |
| Gwasanaethau allanol | 6 | 3,156 | 3,308 |
| Costau gweithredu eraill | 7 | 3,850 | 4,093 |
| Dosbarthiad o gronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol | 7 | - | 1,633 |
| | | **22,412** | **24,325** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 2 | (16,108) | (16,606) |
| Grant arolygu | 2 | (947) | (1,409) |
| Incwm gweithredu arall | 3 | (57) | (20) |
| | | **(17,112)** | **(18,035)** |
| **Gwariant net** | | **5,300** | **6,290** |
| Llog taladwy/(derbyniadwy) | | (7) | (7) |
| Treth gorfforaeth sy'n daladwy/(adenilladwy) | | - | 3 |
| **Gwariant net ar ôl treth a llog** | | **5,293** | **6,286** |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **5,293** | **6,286** |


**Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 115 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 623 | 666 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 252 | 97 |
| | | **875** | **763** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | 10 | 2,166 | 1,996 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 11 | 566 | 572 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 12 | 2,841 | 4,489 |
| | | **5,573** | **7,057** |
| **Cyfanswm asedau** | | **6,448** | **7,820** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill | 13 | (2,055) | (1,860) |
| Incwm gohiriedig | 14 | (2,404) | (2,463) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | (536) | (637) |
| Dosbarthiad o gronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol | 13 | (2) | (1,633) |
| Cronfa Gyfunol Cymru (gweler y Crynodeb o Alldro Adnoddau) | | (698) | (337) |
| | | **(5,695)** | **(6,930)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **753** | **890** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | (770) | (890) |
| | | (770) | (890) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau** | | **(17)** | **(0)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (17) | (0) |
| | | **(17)** | **(0)** |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 115 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**



**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2015

# Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | 2014-15<br>£'000 | 2013-14<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | 5,293 | 6,286 |
| Anariannol: dibrisiant ac amorteiddio | 7 | (177) | (227) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10, 11 | 164 | 1,046 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13, 14 | (136) | (316) |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn a ddosberthir i gyrff llywodraeth leol | 13, 14 | 1,631 | (1,633) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn darpariaethau | 15 | 221 | (17) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **6,996** | **5,139** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 72 | 16 |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | 217 | 38 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **289** | **54** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | (5,974) | (5,431) |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | 337 | 268 |
| **Ariannu net** | | **(5,637)** | **(5,163)** |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 12 | **1,648** | **30** |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 115 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | 1,192 |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2013-14 | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (6,286) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,431 |
| | 337 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (337) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **0** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2014-15 | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (5,293) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,974 |
| | 681 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru[1] | (698) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **(17)** |

1 Fel y'i nodwyd yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015.

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 115 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# Nodyn 1: Confensiynau a pholisïau cyfrifyddu

## Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â FReM 2014-15, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir yn Nodyn 21: Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y'u haddaswyd neu'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle y caniatâ'r FReM ddewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd a gyhoeddwyd, ond nad ydynt yn effeithiol eto, a fyddai wedi cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi'u cymhwyso i'r cyfnod adrodd hwn:

(i) Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol lle bo hynny'n berthnasol i'w gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar ffurf a gyfarwyddir gan Drysorlys EM, o dan baragraff 32 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Fe'u cyflwynir mewn punnoedd Prydeinig sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru ac maent wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

(ii) Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW.

(iii) Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu'n incwm gohiriedig (gweler xi). Caiff gwaith a wneir cyn i'r incwm gael ei dderbyn ei ddosbarthu'n waith sy'n mynd rhagddo (gweler ix). Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

(iv) Mae PCSPS yn gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir y mae'r cyflogai a'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol yn ystod y cyfnod y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy wneud taliadau i PCSPS a gyfrifir ar sail gronnus.

(v) Caiff rhenti prydlesau gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan hanfodol o gyfanswm y treuliau prydles. Os yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael budd o gyfnodau di-rent yn ystod prydlesau, caiff y budd hwnnw ei gredydu'n gyfartal dros y cyfnod o ddechrau'r brydles hyd nes yr adolygiad rhent cyntaf.

(vi) Caiff asedau anniriaethol, sef trwyddedau meddalwedd, eu datgan ar gost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased, pa un bynnag sydd fyrraf. Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

(vii) Delir asedau sefydlog ar gostau adnewyddu wedi'u dibrisio fel amcangyfrif i werth teg.

(viii) Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe'i cyfrifir i ddibrisio cost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau (gan gynnwys seilwaith TG) | 10 mlynedd (neu'n fyrrach yn ôl oes ased neu hyd prydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau a brydlesir) |
| Offer cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |

Mae'r newid mewn polisi dibrisio ar gyfer darnau gosod a gosodiadau wedi golygu lleihad o £67,000 mewn treuliau dibrisio yn 2015-16.

O dan bolisi cyfalafu Swyddfa Archwilio Cymru, caiff offer cyfrifiadurol unigol ac wedi'i grwpio a meddalwedd gwerth dros £5,000, offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfa eu cyfalafu. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

(ix) Caiff symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at symiau sy'n daladwy am waith a gwblhawyd lle nad yw'r ffi wedi'i chodi eto neu lle bo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif. Pennir darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy pan fo tystiolaeth na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu adennill pob swm sy'n ddyledus yn unol â'r contractau.

(x) Caiff darpariaeth ar gyfer costau dadfeilio eiddo ar brydles yn y dyfodol ei chynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Fe'i cronnir drwy daliad dadfeilio blynyddol, a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles. Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy'n ymwneud â chost newidiadau adferol a wneir i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuir yn y flwyddyn y nodir y gost, yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarperir gan syrfewyr annibynnol. Caiff y cyfryw ddarpariaethau eu cyfalafu a'u dibrisio dros oes yr ased neu hyd y brydles, pa un bynnag sydd fyrraf.

(xi) Mae incwm gohiriedig yn cynnwys incwm ffioedd sydd wedi'i anfonebu ond sydd heb ei gydnabod eto. Fe'i cyfrifir drwy asesu i ba raddau y mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, gan gydnabod y gyfran honno o incwm ffioedd a anfonebwyd fel refeniw yn ystod y cyfnod a thrin incwm sydd wedi'i anfonebu ond heb ei gydnabod fel incwm gohiriedig.

(xii) Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid llunio amcangyfrifon a thybiaethau amrywiol sy'n effeithio ar y polisïau cyfrifyddu a gymhwysir a'r symiau a gofnodir. Caiff pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath ei adolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y diwygiwyd yr amcangyfrif ac ym mhob cyfnod y mae'r diwygiad yn effeithio arno yn y dyfodol.

Gwneir y defnydd mwyaf o amcangyfrifon a dyfarniadau pwysig yn y meysydd canlynol:

- Mae darpariaethau ar gyfer dileu swyddi a diswyddiadau yn seiliedig ar ragamcanion o daliadau pensiwn disgwyliedig yn y dyfodol. Yn unol â safonau cyfrifyddu, cydnabyddir y ddarpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y digwyddodd y digwyddiad sy'n dwyn rhwymedigaeth, gan dybio ei bod yn debygol bod angen trosglwyddo buddiannau economaidd ac y gellir amcangyfrif hyn mewn ffordd ddibynadwy.

- Caiff gwaith sy'n mynd rhagddo ei brisio ar sail canran y gwaith heb ei filio sydd wedi'i gwblhau. Cyfrifir incwm gohiriedig ar sail asesiad o'r graddau y mae prosiect wedi'i gwblhau, fel yr eglurir uchod.

- Mae darpariaethau treth yn seiliedig ar gyngor proffesiynol a dderbyniwyd.

- Mae darpariaethau dadfeiliadau yn seiliedig ar gyngor proffesiynol a dderbyniwyd.

(xiii) Ystyrir digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol y gall fod angen eu datgelu neu eu haddasu yn unol â gofynion IAS 10 hyd at y dyddiad yr awdurdodir y cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir mai'r dyddiad hwn yw'r dyddiad y llofnodir Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol.

## Nodyn 2 (a): Segmentau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru

### 2014-15

| | Archwilio ariannol | Archwilio perfformiad | Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio | (12,268) | (3,840) | | (16,108) |
| Grant | | (947) | | (947) |
| Incwm arall | | | (57) | (57) |
| Cyfanswm | (12,268) | (4,787) | (57) | (17,112) |
| Gwariant | 12,582 | 4,480 | 5,350 | 22,412 |
| | **314** | **(307)** | **5,293** | **5,300** |

### 2013-14[7]

| | Archwilio ariannol | Archwilio perfformiad | Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio | (11,848) | (4,758) | | (16,606) |
| Grant | | (1,409) | | (1,409) |
| Incwm arall | | | (20) | (20) |
| Cyfanswm | (11,848) | (6,167) | (20) | (18,035) |
| Gwariant | 12,343 | 6,571 | 5,411 | 24,325 |
| | **495** | **404** | **5,391** | **6,290** |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiad ar incwm a gwariant ar ei dwy brif swyddogaeth archwilio y codir ffioedd amdanynt a hefyd y gweithgareddau a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Ceir rhagor o fanylion am y gweithgareddau hyn yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 9 i 50.

7 Cyn 2014-15 cafodd ein gwariant ei ddadansoddi ar wahân er mwyn gwahaniaethu rhwng yr elfennau o gyllideb Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn cael eu cymeradwyo drwy gynnig cyllidebol gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r elfennau hynny nad oeddent yn destun gweithdrefn o'r fath. O 1 Ebrill 2014 mae'r holl incwm a gwariant yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth o'r fath. Mae gwybodaeth gymharol 2013-14 wedi cael ei hailddatgan i adlewyrchu hyn.

### Cysoni â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwariant net yn unol â'r dadansoddiad uchod | 5,300 | 6,290 |
| Treth gorfforaeth | 0 | 3 |
| Llog derbyniadwy | (7) | (7) |
| Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 5,293 | 6,286 |

## Nodyn 2 (b): Dadansoddiad o incwm o ffioedd archwilio

| | 2014-15 | | | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Archwilio Llywodraeth leol | 6,146 | 2,556 | 8,702 | 5,433 | 3,456 | 8,889 |
| Ardystio Grantiau Llywodraeth Leol | 2,079 | - | 2,079 | 2,496 | - | 2,496 |
| Y GIG | 2,107 | 1,273 | 3,380 | 2,039 | 1,263 | 3,302 |
| Archwilio Llywodraeth Ganolog | 1,936 | 11 | 1,947 | 1,880 | 39 | 1,919 |
| | 12,268 | 3,840 | 16,108 | 11,848 | 4,758 | 16,606 |

## Nodyn 3: Incwm gweithredu arall

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm amrywiol | 57 | 20 |
| | 57 | 20 |

## Nodyn 4: Costau staff a chostau cysylltiedig

| (i) Costau staff | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau staff | 10,655 | 10,668 |
| Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol[1] | 59 | 90 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,055 | 1,042 |
| Costau pensiwn [2] | 2,115 | 2,116 |
| Costau pensiwn (pensiynau cyfranddeiliaid) | 3 | 7 |
| | 13,887 | 13,923 |
| Lwfans trafnidiaeth a cheir ar brydles | 772 | 742 |
| Tanysgrifiadau a buddiannau eraill[3] | 48 | 47 |
| | 14,707 | 14,712 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu[4] | 548 | 323 |
| | 15,255 | 15,035 |
| Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 240 | 400 |
| Llai arian a dderbyniwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan[5] | (89) | (144) |
| Costau staff net | 15,406 | 15,291 |

1 Fel y'i nodwyd yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth, ac eithrio Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru y telir ei gydnabyddiaeth o Gronfa Gyfunol Cymru.

2 Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil fel y'i disgrifiwyd yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth.

3 Yn bennaf ffioedd ar gyfer aelodaeth o gyrff proffesiynol

4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio nifer o gontractwyr archwilio ac arolygu dros dro ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn er mwyn ateb y galw am adnoddau ar adegau prysur

5 Cafodd aelod o'r uwch dîm arwain ei secondio i sefydliad arall am chwe mis o'r flwyddyn ariannol. Ad-dalwyd 50% o gostau'r secondiad hwn am ddeufis i Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'i cynhwyswyd yn y ffigur hwn.

| **(ii) Niferoedd staff** | **2014-15** | **2013-14** |
| --- | --- | --- |
| | **£'000** | **£'000** |
| Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 241 | 243 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd) | 12 | 7 |

Ceir gwybodaeth fanylach am gydnabyddiaeth a hawliau pensiwn uwch reolwyr yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 59 i 67.

Nid ymddeolodd unrhyw aelodau o staff yn gynnar am resymau iechyd yn ystod y flwyddyn.

## Nodyn 5: Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu trefniadau diswyddo gwirfoddol yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac fel y'i cymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r cynlluniau hyn yn bodloni gofynion cynllunio'r gweithlu ac maent wedi arwain at leihad yn sylfaen costau staffio Swyddfa Archwilio Cymru. Cost y cynllun yn 2014-15 oedd £316,825 (2013/14: £378,409). Bydd hyn yn sicrhau arbedion blynyddol o £330,000.

Gadawodd nifer o gyflogeion drwy becynnau ymadael cymeradwy yn ystod 2014-15 a 2013-14 fel y'i crynhoir isod:

| Band costau'r pecyn ymadael | 2014-15 | | | 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau |
| Llai na £25,000 | - | 1 | 1 | - | - | - |
| £25,001 – £50,000 | - | 2 | 2 | - | 1 | 1 |
| £50,001 – £100,000 | - | 2 | 2 | - | 2 | 2 |
| £100,001 – £150,000 | - | 1 | 1 | - | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **-** | **6** | **6** | **-** | **4** | **4** |

O'r chwe unigolyn y caniatawyd iddynt adael yn wirfoddol yn 2014-15, roedd gan bump ddyddiadau gadael yn 2015-16. Mae costau'r pecynnau wedi'u cynnwys yn Nodyn 4: Costau staff a Nodyn 15: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau.

Talwyd costau ymddeoliadau cynnar ac ymadawiadau yn unol â pholisi Swyddfa Archwilio Cymru, y cytunwyd arno gydag undebau llafur cydnabyddedig. Caiff y costau ychwanegol nas talwyd gan y PCSPS eu talu gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u cydnabyddir yn y datganiadau ariannol hyn.

## Nodyn 6: Gwasanaethau allanol

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 3,070 | 3,168 |
| Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 86 | 140 |
| | 3,156 | 3,308 |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau allanol a brynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu neu ymchwil.

## Nodyn 7: Costau gweithredu eraill

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Swyddfeydd | | |
| Costau prydlesau rhent | 459 | 453 |
| Costau eraill | 373 | 397 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1,931 | 2,233 |
| Recriwtio a throsglwyddiadau | 62 | 76 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 177 | 227 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| Gwasanaethau archwilio mewnol | 30 | 17 |
| Ffioedd archwilio allanol | 37 | 25 |
| Ffioedd ar gyfer gwasanaethau eraill (Gwerth am Arian) | - | - |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 78 | 90 |
| Teithio a chynhaliaeth | 492 | 431 |
| Dysgu a datblygu | 203 | 144 |
| Dosbarthiad o gronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol[1] | - | 1,633 |
| Dileu dyledion | 8 | - |
| | 3,850 | 5,726 |

1 Dosbarthwyd cronfeydd wrth gefn cronedig hyd at 31 Mawrth 2014 i gyrff llywodraeth leol yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn yr Amcangyfrif blynyddol ar gyfer 2014-15.

# Nodyn 8: Eiddo, offer a chyfarpar

| 2014-15 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 1,377 | 223 | 115 | 1,715 |
| Ychwanegiadau | - | 49 | 23 | 72 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 1,377 | 272 | 138 | 1,787 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 826 | 137 | 86 | 1,049 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 81 | 15 | 19 | 115 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 907 | 152 | 105 | 1,164 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 470 | 120 | 33 | 623 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 551 | 86 | 29 | 666 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 470 | 120 | 33 | 623 |

| 2013-14 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 1,377 | 207 | 115 | 1,699 |
| Ychwanegiadau | - | 16 | - | 16 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 1,377 | 223 | 115 | 1,715 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 697 | 121 | 65 | 883 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 129 | 16 | 21 | 166 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 826 | 137 | 86 | 1,049 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 551 | 86 | 29 | 666 |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 680 | 86 | 50 | 816 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 551 | 86 | 29 | 666 |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

# Nodyn 9: Asedau anniriaethol

Trwyddedau meddalwedd yw asedau anniriaethol.

| 2014-15 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 719 |
| Ychwanegiadau | 217 |
| Gwarediadau | (107) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 829 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 622 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 62 |
| Gwarediadau | (107) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 577 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 252 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 97 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 252 |

| 2013-14 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 712 |
| Ychwanegiadau | 38 |
| Gwarediadau | (31) |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 719 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 592 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 61 |
| Gwarediadau | (31) |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 622 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 97 |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 120 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 97 |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

Ni ddelir rhestrau eiddo perthnasol.

## Nodyn 10: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| Llywodraeth ganolog | 102 | 82 |
| Llywodraeth leol | 616 | 253 |
| Y GIG | 242 | 205 |
| Y tu allan i'r llywodraeth | 18 | 31 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | | |
| Llywodraeth ganolog | 455 | 592 |
| Llywodraeth leol | 587 | 833 |
| Y GIG | 6 | - |
| Y tu allan i'r llywodraeth | 140 | |
| | 2,166 | 1,996 |

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Ni fu angen darpariaeth ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus yn 2014-15 (2013-14: dim angen).

## Nodyn 11: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---:|---:|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 565 | 571 |
| Benthyciadau i gyflogeion[1] | 1 | 1 |
| | 566 | 572 |

1 Cynllun beicio i'r gwaith

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Gellir dadansoddi balansau'r symiau derbyniadwy yn Nodiadau 10 ac 11 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---:|---:|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 585 | 704 |
| Cyrff llywodraeth leol | 1,375 | 1,268 |
| Cyrff y GIG | 248 | 205 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 524 | 391 |
| | 2,732 | 2,568 |

# Nodyn 12: Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2015 £’000 | 31 Mawrth 2014 £’000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 4,489 | 4,519 |
| Newid net mewn arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod | (1,648) | (30) |
| Balans ar 31 Mawrth | 2,841 | 4,489 |

| | 31 Mawrth 2015 £’000 | 31 Mawrth 2014 £’000 |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 2,128 | 2,781 |
| Cyfrif Ewro | 1 | 1 |
| Cronfa Drysorlys Fyd-eang | 712 | 1,707 |
| | 2,841 | 4,489 |

Mae arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr holl gronfeydd a ddelir mewn cyfrifon y gall Swyddfa Archwilio Cymru gael gafael arnynt ar unwaith. Mae’r cyfrif cyfredol yn cynnwys cyfleuster llog dros nos. Diben y cyfrif Ewro yw symleiddio trafodion tramor achlysurol.

Darperir y Gronfa Drysorlys Fyd-eang gan Goldman Sachs. Nod y gronfa hon yw diogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra’n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Mae’r gronfa wedi’i strwythuro i sicrhau y cynhelir y statws credyd uchaf, sef statws AAA neu statws cyfwerth, gydag asiantaethau graddio statws Standard & Poor, Fitch a Moody.

## Nodyn 13: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach taladwy[1] | 585 | 217 |
| TAW | 80 | 53 |
| Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol | 327 | 320 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto | 481 | 481 |
| Ad-dalu cronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol[2] | 2 | 1,633 |
| Croniadau eraill[3] | 582 | 789 |
| | 2,057 | 3,493 |

1 Mae pob swm masnach taladwy yn ddyledus o fewn blwyddyn.

2 Yn unol â Deddf 2013, ni all Swyddfa Archwilio Cymru ddal cronfeydd wrth gefn cronedig o 1 Ebrill 2014. Wrth baratoi hyn, dosbarthwyd cronfeydd wrth gefn a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2014 i gyrff llywodraeth leol. Mae balans o £1,560 i'w ddosbarthu i 52 o gynghorau tref a chymuned.

3 Mae'r rhan helaeth o'r croniadau eraill (£330,000) yn ymwneud ag anfonebau am symiau masnach sy'n daladwy a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae £250,000 yn ymwneud â chyfraniadau pensiwn ar gyfer mis Mawrth 2015, a dalwyd ym mis Ebrill 2015.

## Nodyn 14: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm gohiriedig | 2,404 | 2,463 |
| | 2,404 | 2,463 |

Yn unol â safonau cyfrifyddu, mae'n ofynnol i ni asesu i ba raddau mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, a chydnabod y gyfran honno o'r incwm ffioedd disgwyliedig fel refeniw yn ystod y cyfnod. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

Gellir dadansoddi'r balansau taladwy yn Nodiadau 13 a 14 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganolog | 645 | 461 |
| Cyrff llywodraeth leol | 1,752 | 3,179 |
| Cyrff y GIG | 990 | 1,043 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 1,074 | 1,273 |
| | 4,461 | 5,956 |

# Nodyn 15: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau[1] | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau[2] | CThEM | Arall | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 556 | 882 | 89 | - | 1,527 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 28 | 247 | 10 | 50 | 335 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | (523) | - | - | (523) |
| Darpariaethau a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn | | | (33) | | (33) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 584 | 606 | 66 | 50 | 1,306 |

1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM yn glir o CPI ym mis Tachwedd 2014 ar gyfer balansau o 5-10 mlynedd, sef -1.50 y cant i gyfrifo'r balans hwn.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio'r Trysorlys, yn glir o CPI ym mis Tachwedd 2014, sef 1.30 y cant i gyfrifo'r balans hwn

Dadansoddiad o’r amseru disgwyliedig:

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | CThEM | Arall | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| O fewn blwyddyn | 30 | 390 | 66 | 50 | 536 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 38 | 216 | - | - | 254 |
| Dros bum mlynedd | 516 | - | - | - | 516 |
| | 584 | 606 | 66 | 50 | 1,306 |

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau’n rhoi amcangyfrif o’r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella’r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesau. Mae’r ddarpariaeth yn cynnwys amcangyfrif o gost debygol gwneud newidiadau adferol i eiddo a brydlesir, ynghyd â swm ar gyfer ‘traul’ a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr ased a brydlesir.

Mae’r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau’n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer CThEM yn ymwneud â’r canlynol:

- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol i gontractwyr sydd wedi darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2013;
- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i rai aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru; a
- thandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â’r budd-dal Marw yn y Swydd i Gyflogai.

Mae’r ddarpariaeth arall yn cynnwys ymrwymiad i dalu iawndal i ddefnyddwyr ceir prydles sydd wedi’u heffeithio’n andwyol ar ddiwedd y cynllun prydles presennol.

## Nodyn 16: Prydlesau gweithredu

Roedd isafswm taliadau prydlesau cyfanredol ar 31 Mawrth 2015 o ran prydlesau ceir na ellir eu canslo:

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 189 | 158 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 226 | 241 |
| | 415 | 399 |

Roedd isafswm taliadau prydlesau cyfanredol ar 31 Mawrth 2015 mewn perthyn â thair prydles swyddfa:

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | Nifer yr eiddo | £'000 | Nifer yr eiddo |
| O fewn blwyddyn | 440 | 3 | 446 | 3 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 1,563 | 2 | 1,783 | 2 |
| Dros bum mlynedd | 1,042 | 1 | 1,262 | 1 |
| | 3,045 | | 3,491 | |

Adolygir rhent prydlesau swyddfeydd yn rheolaidd.

# Nodyn 17: Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2015 (31 Mawrth 2014: dim).

# Nodyn 18: Colledion a thaliadau arbennig

## Taliadau arbennig

Nid oedd unrhyw daliadau arbennig yn 2014-15 (2013-14: dim).

## Colledion

Ni fu unrhyw golledion i'w datgelu yn 2014-15 (2013-14: dim).

# Nodyn 19: Deilliadau ac offerynnau ariannol

Mae IFRS 7 **Datgeliadau Offerynnau Ariannol** yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth am bwysigrwydd offerynnau ariannol i endid, a natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, mewn termau ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol. Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyca arian, ni fu'n rhaid i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall Swyddfa Archwilio Cymru fuddsoddi arian dros ben hefyd, a gwna hynny drwy gyfrif llog dros nos a thrwy'r Gronfa Drysorlys Fyd-eang (gweler Nodyn 12). Nid yw'r gweithgareddau hyn yn peri unrhyw risgiau ariannol sylweddol.

## Risg o hylifedd

O gofio natur ein busnes, ni oddefir lefel uchel o risg o ran rheoli ariannol.

Yn sgil chwaeth o'r fath am risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

## Risg cyfradd llog

Nid yw asedau na rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ac eithrio incwm buddsoddi, yn agored i risg cyfradd llog.

## Risg arian cyfred tramor

Mae'r graddau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r gwarged gweithredu.

## Risg o ran credyd

Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Felly nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i hamlygu i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

## Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2015 (31 Mawrth 2014: dim).

## Nodyn 20: Trafodion â phartïon cysylltiedig

Corff corfforaethol a sefydlwyd o dan statud yw Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n ymgymryd â thrafodion perthnasol â Chronfa Gyfunol Cymru a chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y'i datgelwyd yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelodau o'r pwyllgorau anweithredol, nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

## Nodyn 21: Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio yn unol â threfniadau ariannu blynyddol drwy statud. Er i gyllid y pleidleisiwyd i'w ddyfarnu gael ei gymeradwyo am naw mis yn unig ar ôl dyddiad llofnodi'r datganiadau hyn, caiff Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod hydref 2015-16 ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff hyn ei gymeradwyo yn y flwyddyn ariannol honno.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru